

# YSGOL UWCHRADD TYWYN

## *‘Dysgu i Fyw’*

---

# LLAWLYFR / PROSBECTWS


**Pennaeth: Mr David Thorp**

Ffordd yr Orsaf/Station Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 9EU
☎ 01654 710256

Hydref 2025

Annwyl Riant / Gofalwr,

Ar ran staff Ysgol Uwchradd Tywyn, hoffwn estyn croeso cynnes i chi a'ch plentyn. Gobeithiwn mai dyma fydd cychwyn cyfnod hapus a llwyddiannus i'ch plentyn yn yr ysgol. Edrychwn ymlaen at bartneriaeth adeiladol gyda chi, un fydd yn sicrhau fod eich plentyn yn gwneud y cynnydd gorau bosibl.


Mae Ysgol Uwchradd Tywyn yn ysgol gyfeillgar a chroesawgar tuag at y disgyblion i gyd. Rydym yn cynnig awyrgylch yn llawn gofal a chefnogaeth; rhydd hyn y cyfle i'ch plentyn i dyfu yn addysgol ac i lwyddo yn academaidd. Ein nod yw creu ysgol hapus lle mae pawb yn gwneud eu gorau bob amser, yn gofalu am bawb arall yn y gymuned ysgol, ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi eu bywydau tra yn yr ysgol. Mae plant hapus yn cyflawni'n well gan eu bod yn teimlo'n ddiogel. Rydym yn annog ein disgyblion i fod yn aelodau cyfrifol o'r ysgol a'u cymunedau lleol, ac i gyfrannu eang i'r cymdeithasau hyn.

Mae'r safonau uchel welir yn dyst i waith rhagorol y staff a'r disgyblion. Yn ogystal, rydym yn ymfalchïo yng nghyraeddiadau allgyrsiol ein disgyblion - mewn chwaraeon, Cerdd, Dyfarniad y Dug Caeredin neu yn syml yn eu hymdrechion i dyfu yn unigolion cyflawn. Mae'r cyfan yn bwysig yn natblygiad talentau pob disgybl.

Ymfalchïwn yn y ffaith fod gennym yma berthynas glos gyda'r rhieni - perthynas sydd yn cael ei weithio a'i ddatblygu yn barhaus. Mae'r ysgol yn croesawu'r cyfle i gyd-weithio yn agos er lles eich plentyn.

Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod yn fuan. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryder, cysylltwch â ni, a byddaf yn falch o drefnu sgwrs ar adeg fydd yn gyfleus i bawb.

Yn gywir



*David Thorp*
Pennaeth

**YSGOL UWCHRADD TYWYN**

Ffordd yr Orsaf, Tywyn, Gwynedd, LL36 9EU
☎ ***01654 710256***
www.tywyn.gwynedd.sch.uk
swyddfa@tywyn.ysgoliongwynedd.cymru



**PENNAETH**
David Thorp

**DIRPRWY BENNAETH**
Marion Sterritt

**CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR**
Carys Fowles

**DISGRIFIAD O'R YSGOL**
Ysgol ddwyieithog gyd-addysgol ar gyfer
dysgwyr 11-16 oed

**SESIWN BORE:** 8:30
**SESIWN PRYNHAWN:** 13:05

**POLISI DERBYN YR YSGOL**
Mae'r polisi hwn yn gweithredu'n unol a pholisi derbyn
Cyngor Gwynedd

**DYDDIADAU TYMHORAU 2025 – 2026**
Tymor yr Hydref: 3 Medi – 19 Rhagfyr 2025
Tymor y Gwanwyn: 5 Ionawr 2026 – 27 Mawrth 2026
Tymor yr Haf: 13 Ebrill 2026 – 17 Gorffennaf 2026

**DYDDIADAU GWYLIAU 2025 – 2026**
Hanner Tymor: 27 Hydref – 31 Hydref 2025
Gwyliau'r Nadolig: 22 Rhagfyr 2025 – 2 Ionawr 2026
Hanner Tymor: 16 -20 Chwefror 2026
Gwyliau'r Pasg: 30 Mawrth - 10 Ebrill 2026
Calan Mai: 4 Mai 2026
Hanner Tymor: 25 – 29 Mai 2026
Gwyliau'r Haf: 20 Gorffennaf – 31 Awst 2026

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| 5 | Cefndir yr Ysgol |
| | Yr Ysgol a'r Gymuned |
| | Ethos a Gwerthoedd |
| 6 | Amcanion yr Ysgol |
| 7 | Gwisg Ysgol |
| | Diogelu Plant yn Ysgol Uwchradd Tywyn |
| 8 | Disgwyliadau'r Ysgol |
| 9 | Trefniadaeth a Chwricwlwm |
| | Adeiladau |
| | Diogelwch yr Ysgol |
| 10 | Cydraddoldeb |
| | Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb |
| | Addysg Bersonol a Chymdeithasol |
| 11 | Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd |
| | Swyddogion |
| | Anghenion Cymdeithasol ac Emosiynol |
| | Ysgol sy'n hybu Iechyd |
| 12 | Gweithgareddau Allgyrsiol |
| | Cerdd a Drama |
| | Urdd |
| | Chwaraeon a Gweithgareddau |
| | Wythnos Cyfleoedd |
| 13 | Profiad Gwaith |
| | Polisi Iaith |
| 14 | Ethos Gymraeg |
| 16 | Cwricwlwm Yr Ysgol |
| 18 | Cwricwlwm i Gymru |
| 19 | Arweiniad a Chyngor Gyrfaol |
| | Ymweliadau a Gweithgareddau Addysgol |
| 19 | Cyllideb |
| | Defnydd o'r Grant Amddifadedd |
| 20 | Gwybodaeth Ychwanegol |
| | Absenoldeb |
| | Meddygol |
| | Trafnidiaeth Ysgol |
| | Lluniau Disgyblion |
| 21 | Y Diwrnod Ysgol |
| | Trefniadau Mynediad |
| 22 | Noson Agored |
| | Trefniadau Amser Cinio |
| 23 | Llinell Gymorth |
| | Cyfrifiaduron |
| | Trefn Gwyno |
| 24 | Mynediad i Wybodaeth |
| | Cofnodion ar Ddisgyblion |
| | Ffioedd Arholiadau |
| 25 | Ymweliadau Addysgol |
| | Talu am Gweithgareddau Ysgol |
| 26 | Trefniadau Addysg Gorfforol |
| | Cyngor Ysgol |
| 27 | Prosiect Ysgol Tywyn 2000 |
| 28 | Uned Gynhwysiad |
| 29 | Cefnogaeth Ddysgu |
| | Polisi: Cymorth Dysgu |
| 31 | Polisi : Ffôn symudol ac oriawr clyfar |
| 32 | Polisi: Addysg Disgyblion Mewn Gofal |
| 33 | Cytundeb Cartref/Ysgol |
| 34 | Rhestr Staff Ysgol Uwchradd Tywyn |
| 36 | Canlyniadau TGAU 2024-25 |
| 37 | Cyrchfannau Ymadawyr Ysgol 2025 |
| | Dyddiadau tymhorau 2025-2026 |
| 38 | Datganiad Preifatrwydd/GDPR |

**CEFNDIR YR YSGOL**




Mae Ysgol Tywyn yn ysgol gyfun ddwyieithog a ddathlodd 125 mlynedd yn 2019. Mae'r safle tua chan llath o'r Stryd Fawr yn Nhywyn, tref ar arfordir ddeheuol Gwynedd â phoblogaeth o gwmpas pedair mil.

Ym Medi 2025 mae 373 o ddisgyblion ar llyfrau'r ysgol sydd yn ysgol 11 - 16. Mae 19 o staff addysgu llawn amser, (gan gynnwys yr Uwch Dîm Rheoli) 8 aelod o staff rhan amser, 6 Staff Cymorth Dysgu llawn amser a 3 aelod o staff cymorth rhan-amser. Mae disgyblion 16+ yn teithio i wahanol golegau/ysgolion yng Ngwynedd, Powys, Ceredigion a thu hwnt, er bod y mwyafrif yn mynd i goleg Meirion-Dwyfor (Dolgellau).

Derbynnir yn flynyddol, tua 65 o ddisgyblion o'r pedwar ysgol gynradd mewn dalgylch sy'n ymestyn o Craig y Deryn i'r gogledd, Corris i'r dwyrain a Pennal i'r de. Mae nifer helaeth o ddisgyblion o'r herwydd, yn teithio cryn bellter i Ysgol Uwchradd Tywyn, a deuant o wahanol gefndiroedd teuluol ac addysgol; rhai o gartref lle mae'r ddau riant yn Gymry Cymraeg, ac eraill o gartrefi mewnfudwyr diweddar, sy'n brin iawn eu gwybodaeth o'r iaith.

Anelir at greu awyrgylch gynnes a chartrefol o fewn yr ysgol gan fod hyn mor hanfodol i hyrwyddo ac i gynnal dysgu a gweithio llwyddiannus. Rhoddir pwyslais felly ar gydweithio rhwng rhieni ac athrawon, er lles addysgol y plant.

Mae llawer o wybodaeth ar gael i rhieni a disgyblion ar ein wefan:
[www.tywyn.ysgoliongwynedd.cymru](www.tywyn.ysgoliongwynedd.cymru)

**YR YSGOL A'R GYMUNED**

Dyfarnwyd sawl tystysgrif i'r ysgol i gydnabod safon uchel y gweithgareddau allgyrsiol a gynigir. Ym Mehefin 2018, derbyniodd yr ysgol wobrau Daily Post 'Ysgol Uwchradd y Flwyddyn' a hefyd 'Gwobr Ysgol y Gymuned'. Eto, ym Mehefin 2019, derbyniodd wobrau Daily Post sef Gwobr Cyfathrebu Ysgol a Staff Cymorth y Flwyddyn (Miss Bethan Williams).



Yn ystod y blynyddoedd ddiwethaf, aethpwyd ati'n fwriadol i greu ac i feithrin cyd-weithrediad ffrwythlon â'r gymuned a thyfodd y naill a'r llall i fod yn gaffaeliad i'w gilydd. Os gallwch gynnig unrhyw fath o gymorth megis hybu sgiliau darllen neu gyngor gyrfaol cysylltwch â'r Pennaeth os gwelwch yn dda.

Mae cyd-weithio hapus rhwng ysgol, diwydiant a'r gymuned ac rydym yn hynod ffodus i elwa o gefnogaeth gan Co-op Tywyn yn llawer o'n digwyddiadau, trwy eu hethos 'Cefnogi'r Gymuned'.

Yn ystod tymor yr haf gwneir defnydd, gyda chaniatâd, o'r amgylchedd lleol fel llwyfan i Wythnos o Gyfleoedd addysgiadol. Mae'r wythnos yn rhan bwysig o brofiad yr ysgol. Yr ysgol sydd yn talu rhan helaeth o gost yr wythnos gyfleoedd yma, a gofynnwn am gyfraniad gan bob plentyn.

**ETHOS A GWERTHOEDD**

Mae ethos yr ysgol yn seiliedig ar ein gwerthoedd craidd sef parch at bawb, safonau uchel o ymddygiad, hunan ddisgyblaeth a gwaith caled mewn amgylchedd dwyieithog, ble mae'r ethos Gymreig a safonau yng Nghymraeg yn cael blaenoriaeth oddi fewn i'r ysgol. Yn dilyn ymgynghori diweddar gyda dysgwyr, staff a llywodraethwyr penderfynwyd byddai ein gwerthoedd craidd wedi eu seilio ar **Parch, Cyfrifoldeb a Balchder.**

Mae'r cwricwlwm eang, lefel uchel o ofal bugeiliol, gweithredu rhaglen amrywiol o weithgareddau all-gyrsiol yn sicrhau fod pob disgybl yn llwyddo oddi fewn i amgylchedd gofalgar a chefnogol..

Rydym yn annog dangos parch, gonestrwydd a chywirdeb, ynghyd a gobeithion a chred yn yr hunan. Rydym yn annog ein disgyblion i wneud y gorau o bob cyfle ac i ddangos balchder yng nghymuned ein hysgol a'r gymuned eang.

Ein blaenoriaeth yw lles a hapusrwydd y disgyblion: rydym yn falch fod ein disgyblion yn cyrraedd safonau uchel ar draws y cwricwlwm ac yn gwneud cynnydd sylweddol.

Fel chwithau, rydym am i'ch plentyn fod yn ddiogel, hapus a llwyddiannus a thyfu i fod yn oedolyn cyfrifol - un fyddwn ni i gyd yn falch ohono. Byddwn yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i'ch plentyn i fagu gwytnwch, gyda'r dyhead i wneud cyfraniad, gwneud gwahaniaeth a gwneud y gorau o fywyd.

**AMCANION YR YSGOL AR GYFER YR HOLL DDISGYBLION**

Mae amcanion yr ysgol yn nodi ein dyheadau i roi'r cyfleoedd a'r addysg orau posibl ar i'n pobl ifanc wrth eu paratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol.

Dysgwyr llwyddiannus gyda chymwysterau da a'r brwdfrydedd i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau, er mwyn cyflawni eu llawn botensial.

Unigolion hunan-hyderus sy'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus a'u cyfleu yn seiliedig ar eu gwerthoedd a'u credoau.

Dinasyddion cyfrifol sy'n parchu eraill ac yn cymryd rhan yn gyfrifol ym mywyd gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y cymunedau y maent yn byw ynddo.

Cyfranwyr effeithiol gyda agwedd egnïol gadarnhaol sy'n gallu arwain neu weithio mewn tîm, gan fodloni heriau bywyd yr 21ain ganrif.

**Rydym yn ysgol sydd yn**:

- rhoi dysgwyr yn gyntaf, yn buddsoddi yn ei staff ac yn gweithio'n agos gyda'i chymuned
- rhagori ar yr hyn mae'n ei wneud
- caniatáu ei holl fyfyrwyr i gyflawni eu potensial unigol trwy ddarparu addysgu rhagorol, cyfleoedd cyfoethog ar gyfer dysgu a chymorth ar gyfer pob dysgwr
- meddu ar werthoedd cadarn a disgwyliadau uchel sy'n cael eu gweithredu'n gyson
- gynhwysol iawn ac yn gweithio fel tîm i leihau rhwystrau dysgu
- profi nad yw sefyllfaoedd cymdeithasol yn rhwystr i gyflawniad
- ysgol hunan-arfarniadol sy'n parhau i wella drwy gynllunio'n effeithiol ac yn hyrwyddo awyrgylch sy'n croesawu newid

**PRESENOLDEB**

Mae gan bob ysgol ddyletswydd a chyfrifoldeb i annog disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cyflawni eu llawn botensial. Mae cyswllt clir rhwng presenoldeb uchel a chanlyniadau da ac felly mae'n gwbl allweddol ein bod ni'n mynd ir afael a hyn efo'n gilydd. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i wella ein lefelau presenoldeb a phrydlondeb.

**Ffigyrau Presenoldeb 2024-2025**

| | |
|---|---|
| **Cymru (uwchradd) / *Wales (secondary)*** | **88.8%** |
| **Gwynedd (uwchradd) / *Gwynedd (secondary)*** | **88.5%** |
| **Ysgol Uwchradd Tywyn** | **90.9%** |

**GWISG YSGOL**

Dyma safonau gwisg ysgol ac edrychiad disgwyliedig yn Ysgol Uwchradd Tywyn. Gwnaed ymdrech i ddylunio gwisg ysgol sy'n hawdd ac yn gymharol rad, i'w phrynu. Gofynnwn am eich cydweithrediad drwy sicrhau fod eich plentyn wedi'i (g)wisgo'n briodol ar gyfer yr ysgol.

- Crys polo gwyn neu gwingoch gyda logo'r ysgol
- Siwmper ddu gyda logo'r ysgol
- Esgidiau neu trenyrs duon (dim logo brandiau)
- Trowsus du plaen neu sgert ddu (hyd rhesymol) neu siorts du hyd at y pen-glin (steil "chinos" yn unig) yn ystod Tymor yr Haf
  - Dim trowsus tracsiwt
  - Dim trowsus "combat"
  - Dim "leggings"



**ADDYSG GORFFOROL**

Crys Addysg Gorfforol gyda logo yr ysgol/Adran AG*
Siorts coch* (Bl 7, 8 a 9)
Siorts du plaen (Bl 10 ac 11)
Esgidiau ymarfer a sanau chwaraeon du (dim esgidiau ymarfer ysgafn)
Padiau shin/gard geg (argymhellir, nid yn orfodol)
Esgidiau pêl-droed/hoci ac esgidiau ymarfer
Tywel a siorts nofio/gwisg nofio un darn

GWISG YSGOL **GENESIS** SCHOOL UNIFORM

* Gwisg ar gael yn uniongyrchol oddi wrth Genesis:
http://www.theverylatest.net/gwisg-ysgol-genesis/

Dolen hefyd ar tudalen wefan yr ysgol: www.tywyn.ysgoliongwynedd.cymru

**Nid oes rhaid prynu gwisg ysgol gan Genesis. Gellir prynu bathodyn gan yr ysgol i'w osod ar grysau polo neu siwmper ddu plaen.**

**DIOGELU PLANT YN YSGOL UWCHRADD TYWYN**

Yn Ysgol Uwchradd Tywyn, rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r gofal a'r gefnogaeth orau bosibl i bob myfyriwr ond os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch diogelwch neu les plentyn, cysylltwch â'r ysgol ar unwaith a nodwch yn glir bod eich galwad yn ymwneud â mater diogelu posibl. Os yw eich pryderon y tu allan i oriau ysgol neu yn ystod gwyliau'r ysgol, cysylltwch â'r heddlu. Os yw plentyn mewn perygl ar fin digwydd, yna ffoniwch 999 ar gyfer yr Heddlu.

Dyluniwyd ein cwricwlwm i greu ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr o faterion diogelu a sut i ddelio â nhw. Ymdrinnir â materion yn y rhaglen PSHE (Addysg Gymdeithasol ac Iechyd Personol), ein rhaglen gwasanaethau ac yn ystod amseroedd tiwtoriaid ac yn fwy cyffredinol trwy'r cwricwlwm i gyd. Mae'r holl staff a myfyrwyr yn derbyn cyngor e-ddiogelwch i godi ymwybyddiaeth o'r heriau newydd sy'n ymwneud â'r rhyngrwyd gyda'r nod o leihau ei gamddefnydd, gan gynnwys gwefannau cyfryngau cymdeithasol a lleihau digwyddiadau seibrfwlio a'i effeithiau.
Mae hyfforddiant yr holl staff wrth nodi, adrodd ar weithdrefnau ac ymdrin â materion o'r fath yn rheolaidd ac yn drylwyr. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein holl staff, gweithwyr proffesiynol eraill, rhieni / gofalwyr a

myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd i wybod y rheolau ynghylch cadw plant yn ddiogel. Byddant yn deall pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau a gwrando ar ei gilydd, yn enwedig pan fydd pryderon ynghylch diogelwch.

Arweinydd Diogelu Dynodedig yr ysgol yw Mrs Marion Sterritt (Dirprwy Bennaeth)
Y Dirprwy Swyddogion Diogelu yw Mr Islwyn Phillips (Cydlynydd Cynnydd Disgyblion) a Mr David Thorp (Pennaeth)
Cynrychiolydd Diogelu'r Llywodraethwyr yw Cyng. Louise Hughes

**DISGWYLIADAU'R YSGOL**

- **Gwersi Ymarfer Corff a Gwyddoniaeth**
- Rhaid clymu gwallt ac ni caniateir gwisgo tlysau yn ystod gwersi Addysg Gorfforol. Ni fydd unrhyw un yn gyfrifol am eitemau addewir yn y gampfa.

- **Mae'r Adran Bwyd a Maeth** yn disgwyl i'r disgyblion brynu ffedogau eu hunain, i'w gwisgo yn y gwersi.

- **Mae'r Adran Dylunio a Thechnoleg** yn disgwyl i'r disgyblion wisgo ffedogau yn y gwersi ymarferol.

- **Lliw Gwallt Naturiol**

- **Clustdlysau**: Styds neu 'hwps' sydd ddim mwy na lled bys. Am resymau diogelwch dylai disgyblion gwisgo **un pâr o glustdlysau yn unig.**

- **Dim tyllu ar yr wyneb**: styden trwyn, aeliau, gwefusau, genau

- **Dim tyllu ar y corff**: am resymau diogelwch **ni chaniateir tyllu** mewn unrhyw ran arall o'r corff ar wahân i glustiau

- **Colur**: colur synhwyrol, dim 'foundation' gormodol na lliw haul ffug a lleiafswm o mascara.

- **Ewinedd**: am resymau iechyd a diogelwch, **ni chaniateir ewinedd gau**. Dylid cadw ewinedd yn fyr a chaniateir farnais ewinedd synhwyrol.

- **Sylweddau anghyfreithlon** o unrhyw fath un, Mae'r ysgol yn bendant yn gwahardd ysmygu (yn cynnwys sigarennau electroneg) am resymau iechyd. Mae hyn yn wir ar dir yr ysgol ac wrth deithio i, neu o'r ysgol, a thu allan i'r ysgol yn ystod oriau ysgol, sef 8.30 - 2.45, a phan mewn gwisg ysgol. Dalier sylw - bydd rhai siopau lleol yn gwerthu sigarennau, fêps ac alcohol i ddisgyblion. Cefnogwch yr ysgol yn ein hymdrechion i roi terfyn ar y gwerthu yma os gwelwch yn dda.

- **Ni chaniateir gwm cnoi** yn yr ysgol. Mae sancsiynau ar gael sydd yn delio a disgyblion gaiff eu dal yn cnoi gwm rywle ar safle a thir yr ysgol.

- Ni fydd yr ysgol yn gyfrifol am golli, am ba reswm bynnag, ipads, 'smart watches' nag unrhyw eitemau gwerthfawr. Y perchnogion sydd yn gyfrifol am y rhain.

- **Mae'n bwysig iawn fod POB dilledyn a darn o eiddo personol, gan gynnwys pyrsiau, cas pensiliau, bagiau a dillad addysg gorfforol yn dangos ENW LLAWN y perchennog**. Mae nifer fawr o eitemau ar ôl yn yr "Eiddo ar Goll" bob tymor. Mae'n ymddangos fod rhai disgyblion yn honni fod eitemau personol wedi colli neu eu dwyn er mwyn cael rhai newydd. Gofynnir i rieni gysylltu gyda'r ysgol pan mae plant yn dweud eu bod wedi "colli" dillad, esgidiau, ayyb.

**Mae gan y Pennaeth awdurdod llawn y Llywodraethwyr i benderfynu a yw golwg ac ymarweddiad disgybl yn dderbyniol a'i peidio.**

**TREFNIADAETH A CWRICWLWM**

**ADEILADAU**



Mae adeiladau'r ysgol yn gyfuniad o'r hen a'r cymharol newydd. Mae'r prif adeilad yn un traddodiadol, ac wedi ei adeiladu o fricsen goch. Mae'n cynnwys yr adran weinyddol, hen neuadd yr ysgol ac ystafelloedd dosbarth. Mae gan y bloc Gwyddoniaeth, y tu cefn i'r ysgol, 4 labordy modern. Mae 3 ystafell cyfrifiaduron, a 25 sgrin rhyngweithiol. Mae'r bloc Dysynni yn darparu 8 ystafell ddosbarth. Ar y pryd mae prosiect adnewyddu mawr yn digwydd, gan gynnwys ffenestri newydd, atgyweirio' toeau, toiledau newydd i ddisgyblion ac ardal cymunedol.

Defnyddir Cae Rhianfa, cae chwarae'r ysgol, i gynnal chwaraeon fel rygbi, pêl droed, criced ac athletau ac hefyd gan wahanol gymdeithasau a chlybiau lleol yn ystod y flwyddyn.







Mae'r cae aml-dywydd yn gaffaeliad o'r radd flaenaf i'r ysgol.
Cytunodd yr ysgol ynghyd ag ysgolion cynradd y dalgylch i gyfrannu eu harian Cyfleoedd Newydd tuag at ail-adeiladu y Ganolfan Hamdden, wedi'r difrod oherwydd gwyntoedd cryfion rai blynyddoedd yn ôl. Mae'r ganolfan ar gael i ysgolion gynradd y dalgylch ac i Ysgol Uwchradd Tywyn - mewn partneriaeth weithredol.

**DIOGELWCH YR YSGOL**

Mae polisïau a threfniadau diogelwch yr ysgol yn cyd-fynd gyda pholisïau Iechyd a Diogelwch yr ALl.

Mae'r ysgol wedi cydweithio gyda'r Awdurdod Lleol er mwyn sefydlu asesiad risg ar gyfer y cyhoedd yn ymweld a'r safle yn ystod oriau'r ysgol. Mae trefniadau pendant wedi'i osod mewn lle er mwyn rheoli'r sefyllfaoedd yma.

Bu'r Awdurdod Lleol yn adolygu diogelwch safle YUT yn 2025 ac mae ffensys diogelwch wedi eu codi ym mlaen a chefn adeiladau'r ysgol Mae Ysgol Uwchradd Tywyn yn cydymffurfio'n llwyr gyda pholisïau a phrosesau'r ALl ynglŷn a mynediad disgyblion anabl ac er mwyn galluogi'r disgyblion hynny i dderbyn mynediad i bob rhan o safle'r ysgol. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn sicrhau fod pob disgybl yn cael eu trin yn gyfartal, beth bynnag yw eu nodweddion.

**CYDRADDOLDEB**

Mae Ysgol Uwchradd Tywyn yn gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.

Hyrwyddwn gysylltiadau da a chyd-barch o fewn a rhwng ein disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r rhieni, rhai sy'n gofalu am a gwarcheidwaid ein disgyblion, beth bynnag fo eu tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadaeth rhywiol, anabledd, newid o ran rhyw, crefydd, neu anffyddiaeth, iaith, cenedl, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion neu am unrhyw reswm arall nag ellir dangos cyfiawnhad drosto.

Mae'r ysgol yn cydnabod y ceir cymdeithasau amrywiol yng Nghymru a'r DU, yn cynnwys unigolion o lawer o wahanol gefndiroedd. Mae'n bwysig bod pob plentyn a'r holl bobl ifanc wedi eu paratoi'n ddigonol i fyw mewn cymdeithas amlddiwylliannol ac amrywiol.

Mae gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb Strategol.

**ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB**

Fel rhan o raglen Addysg Iechyd yr ysgol, mae Addysg Rhywioldeb a Chydberthynas yn elfen bwysig iawn, oherwydd, o'i chyflwyno'n gywir a sensitif, gall fod o gymorth mawr i'r disgyblion fabwysiadu agwedd iach a deallus tuag at faterion moesol a theuluol. Mae hefyd yn orfodol.

Mae cyfraniad nyrs yr ysgol yn cyfoethogi gwersi Addysg Rhyw ac hefyd yn ei galluogi i ddatblygu perthynas gyda'r disgyblion. Mae canolfan 'trafod' ar agor bob wythnos. Trafodir Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel rhan o'r ddarpariaeth Addysg Bersonol a Chymdeithasol

**ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL**

Mae'r athrawon dosbarth yn cael cyfle i adnabod y disgyblion yn well trwy gyflwyno'r elfen hon. Ym mlynyddoedd 7-9 mae'r pwyslais ar Sgiliau Astudio, Addysg Iechyd a Datrys Problemau sy'n cynnwys themâu megis Bwlio. Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi rhoi mwy o fewnbwn ar ddadansoddi cyfraniad i fywyd yr ysgol, cynnydd academaidd a gosod targedau ar gyfer gwneud cynnydd, ac hefyd ar ddinasyddiaeth a rôl y disgybl mewn cymdeithas. Anogir disgyblion i gynrychioli eu dosbarthiadau yn y gwasanaeth, ac ar fforwm Llais y Disgybl sydd yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sydd yn berthnasol i'r disgyblion.

Mae disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 yn cael gwers Lles bob wythnos.

O flwyddyn 9 ymlaen mae mwy o bwyslais ar Addysg Yrfaol gan baratoi disgyblion at Opsiynau 14+ a llwybr gyrfaol ôl 16+.

Mae addysg grefyddol a moesol yn cael ei bwysleisio drwy'r ysgol i bob disgybl.

**ADDYSG GREFYDDOL AC ADDOLI AR Y CYD**
Mae pob grŵp blwyddyn yn mynychu un gwasanaeth yr wythnos.

Yn ystod cyfnodau cofrestru boreol, disgwylir i bob dosbarth i gymryd rhan mewn 'meddwl am y diwrnod' neu cyfnod o fyfyrdod.

Cyflwynir addysg grefyddol anenwadol fel rhan o'r maes llafur.
Gofynnir i'r rhieni sydd am ddefnyddio eu hawliau, dan Ddeddf 1988, i dynnu eu plentyn o'r gwasanaethau neu o'r gwersi Addysg Grefyddol, gysylltu â'r Pennaeth drwy llythyr.

**SWYDDOGION**



Gwahoddir disgyblion Blwyddyn 11 i anfon cais drwy lythyr i fod yn Swyddogion. Ar ôl ystyried y canlynol: cofnod presenoldeb, gwisg ysgol, cyfraniad i'r ysgol, llythyr cais, agwedd ac ymddygiad cyffredinol, dewisir y myfyrwyr arweiniol. Bydd y rhain yn cymryd rhan bwysig yn cefnogi disgyblion iau yr ysgol. Maent yn derbyn hyfforddiant mewn sgiliau mentora, yn cynnwys strategaethau gwrth fwlio a hybu iechyd. Bydd pob myfyrwyr arweiniol yn gofalu am grŵp bychan o ddisgyblion ac maent hefyd yn gysylltiedig â meysydd penodol o'r cwricwlwm i gefnogi addysgu a dysgu, e.e. Noson Agored, clybiau ar ôl ysgol, gweithdai adolygu.

**ANGHENION CYMDEITHASOL AC EMOSIYNOL**

Ymdrinnir â llawer o broblemau gwirioneddol a sefyllfaoedd lle gall problemau godi, fel rhan o'r rhaglen Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol. I'r disgybl, felly, y person cyntaf i droi ato yw'r athro neu'r athrawes (d)dosbarth. Yna, os bydd angen, siaredir â'r Cydlynydd Cynhwysiant a Lles, y Cydlynydd Cynnydd Disgyblion neu Uwch Dîm Rheoli. Mewn achosion difrifol gofynnir am gymorth asiantaethau allanol.

Os bydd raid, cysylltir â'r rhieni i drafod unrhyw broblemau gyda'r Pennaeth, Staff, Nyrs yr ysgol ac asiantaethau allanol, CAMHS, Seicolegydd Addysgol, Tîm Troseddau Ieuenctid, Heddlu Lleol, Swyddog Lles Addysg, Swyddog Pontio.

**YSGOL SY'N HYBU IECHYD**

Mae'r ysgol wedi bod yn aelod o gynllun Ewropeaidd Ysgolion Iach Gwynedd ac rydym ar ein bedwaredd flwyddyn ar ddeg o weithgareddau.



Mae'r ffocws ar les corfforol a meddyliol staff a disgyblion ac mae ffocws i bob grŵp blwyddyn, trwy'r fforymau llais disgyblion. Bydd Blwyddyn 7 ac 8 yn datblygu iechyd corfforol yn ogystal ag ystwythder meddyliol, a bydd blynyddoedd 9, 10 ac 11 yn gweithio o amgylch iechyd meddwl ac yn cyfrannu at weithgareddau Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl.







**GWEITHGAREDDAU ALL-GYRSIOL:** mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o raglenni all-gyrsiol ac yn credu yn gryf yng ngwerth addysgol y cyrsiau yma: ee clwb eco, clwb celf, clwb cerdd, clwb coginio, clwb ten0s-bwrdd, clwb gwyddoniaeth.

**CERDD A DRAMA**: mae'r ysgol yn draddodiadol gryf yn y meysydd yma, a chaiff y rhan fwyaf o'r disgyblion gryn fwynhad a phleser wrth gymryd rhan. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys:.

Côr , Cyngherddau, Drama
Gwersi Athrawon Cerdd Peripatetic:
Chwythbrennau, Pren, Telyn, Celo, Bâs dwbl, Ffidil, Drymiau, Pres, Gitâr, Canu

**URDD**: mae'r Urdd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr.

Eisteddfodau - cynhelir yr Eisteddfod Ysgol yn flynyddol
Canu, Adrodd, Drama, Dawnsio, Chwaraeon, Celf,
Penwythnosau Preswyl - yng Nglanllyn
Rydym hefyd yn ceisio annog disgyblion i gymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



**CHWARAEON A GWEITHGAREDDAU**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gymnasteg | Criced | Pêl-rwyd | Rygbi | Traws Gwlad |
| Hoci | Dawns | Pêl-droed | Athletau | Trampolîn |

**WYTHNOS CYFLEOEDD**





Mae’r wythnos yma, heb amheuaeth, yn wythnos bwysig iawn yn y flwyddyn ysgol. Bydd gweithgareddau yn digwydd yn lle yr amserlen arferol; credwn fod yr rhain yn gymorth i ddatblygu sgiliau y disgyblion llai academig - sgiliau sy’n dod yn fwy a mwy pwysig yn y gweithle. Caiff y disgyblion y cyfle i ddatblygu sgiliau fel datrys problemau, gwaith tîm, cyfathrebu ac arweinyddiaeth. Bydd llwyddiant yn y sgiliau yma yn eu helpu i ddeall ac i ymateb yn addas i’r sialens geir yn y Bagloriaeth Gymreig newydd.

Caiff y disgyblion hefyd y cyfle i gymryd rhan mewn nifer o chwaraeon e.e. Dringo, canŵio, sglefrio ar rew, prosiect celf a cerdd.

Mae staff yn gweld disgyblion mewn amgylchedd hollol wahanol i amgylchedd y dosbarth. Teimlwn fod yr wythnos yma yn helpu’r disgyblion i fagu hyder, ac mae hynny yn cael ei adlewyrchu yn amgylchedd y dosbarth wedi hynny.

**PROFIAD GWAITH**

Mae pob disgybl blwyddyn 10 yn cael y cyfle i dreulio wythnos mewn gweithle, fel rhan o’r cwricwlwm cenedlaethol.

Mae'r disgyblion yn cael eu paratoi ar gyfer y Profiad Gwaith gan bwysleisio anghenion cyflogwyr a'r elfen Iechyd a Diogelwch. Caiff rhai disgyblion y cyfle i dreulio amser ar Brofiad Gwaith Estynedig.



**POLISI IAITH**

Dyma yw polisi cyfredol yr ysgol ond bydd datblygu arno dros gyfnod yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod Addysg.




Mae Ysgol Uwchradd Tywyn yn ysgol fechan mewn dalgylch ieithyddol cymysg.
Ein nod felly yw:

**CYMRAEG A SAESNEG**

Yn ôl gofynion presennol y Cwricwlwm Cenedlaethol dysgir y ddwy iaith i bob disgybl hyd at 16 oed. Sicrheir fod yr holl ddisgyblion sydd â'r gallu angenrheidiol i wneud hynny yn sefyll arholiadau allanol addas yn y pwnc.

**DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG**

Bydd Cyd-gysylltydd Cynnydd Disgyblion yn ymweld ag ysgolion cynradd y dalgylch ac yn cwrdd â'r disgyblion. Derbynnir asesiad o allu ieithyddol y disgyblion ac felly dosberthir plant ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 yn ôl eu gallu yn y Gymraeg. Mae hyn yn sicrhau fod y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg i wahanol raddau, yn unol â'u gallu ieithyddol, er mwyn cyfoethogi'r addysg ddwyieithog a dderbyniwyd yn yr ysgol gynradd.
Bydd y rhai hynny sydd gyda’r gallu angenrheidiol yn y Gymraeg ar ddiwedd Blwyddyn 6 yn dilyn Cymraeg Mamiaith yn hytrach na Chymraeg Ail Iaith.

**CYMRY CYNHENID A DYSGWYR DA IAWN**

Mae'r dosbarthiadau sy'n cynnwys Cymry Cymraeg ac yn ddysgwyr da iawn, yn derbyn gwersi mewn Hanes, Daearyddiaeth, unedau o Dechnoleg ac Addysg Grefyddol, Addysg Gorfforol a Cerdd drwy gyfrwng y Gymraeg. Defnyddir adnoddau dwyieithog ym mhob cwricwlwm.

Bydd y ddarpariaeth yn dilyn polisi iaith yr awdurdod lleol ar wahân i rai achosion pan na fydd dysgu dwyieithog yn bosibl.

Mae **Canolfan Iaith** newydd wedi agor ar dir yr ysgol yn 2025, fydd yn cynyddu proffil yr iaith Gymraeg yn sylweddol. Anogir disgyblion sydd newydd symud i'r ardal i gymryd rhan yn y Cwrs Iaith Gymraeg dwys yma, a chant y cyfle i dreulio 8 wythnos yn y Ganolfan, gyda un diwrnod yr wythnos yn yr ysgol.

**STRATEGAETH IAITH UWCHRADD GWYNEDD**

Ers lansio'r Siarter Iaith Gymraeg yng Ngwynedd, mae gwaith arloesol wedi digwydd yn ein hysgolion cynradd i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Er mwyn sicrhau dilyniant cadarn i'r Siarter, mae'n bleser gennym gyflwyno Strategaeth Iaith Uwchradd fydd yn rhoi arweiniad clir i'n hysgolion uwchradd am dechnegau newid arferion iaith a'r gwahanol ffyrdd o ddylanwadu ar iaith gymdeithasol disgyblion y tu mewn a thu allan i'r ysgol.

Sicrhawyd mewnbwn gwerthfawr i'r Strategaeth gan ddysgwyr uwchradd o wahanol gefndiroedd ieithyddol gan gynnwys Cymry cynhenid, dysgwyr rhugl a dysgwyr a roedd brwdfrydedd y disgyblion hyn wedi creu argraff arbennig.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy'r Gymraeg. Fel rhan o'r ymdrech i gyrraedd y nod yma, mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu Strategaeth Iaith Uwchradd fel offeryn cynllunio effeithiol, gan adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith Cynradd, ar gyfer arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

**Y WELEDIGAETH**

1. Mae Cyngor Gwynedd yn gwbl ymrwymedig i gyfundrefn o ysgolion uwchradd blaengar rhagorol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u gwaith.
2. Nod y Strategaeth Iaith Uwchradd yw hyrwyddo defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg a'i datblygu fel cyfrwng effeithiol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol yn ei holl agweddau.
3. Bydd y Strategaeth yn offeryn cynllunio effeithiol, gan adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith Cynradd, ar gyfer arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.
4. Mae'n cefnogi gweledigaeth Strategaeth Iaith Gwynedd i sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu. Trwy roi pwyslais ar y Gymraeg, sicrheir bod plant Gwynedd yn hyfedr a hyderus ddwyieithog ac yn ymfalchïo yn y gwerth ychwanegol a roddir iddynt o gael dwy iaith, eu bod yn gallu defnyddio'r ddwy iaith yn hyderus yn gymdeithasol ac yn broffesiynol wedi gadael yr ysgol a'u bod yn y pen draw yn trosglwyddo'r ddwy iaith i'r genhedlaeth nesaf yng Ngwynedd.
5. Mae hi hefyd yn cyfrannu i weithredu strategaeth ddwyieithog drwy hyrwyddo'r Gymraeg gan sicrhau ei bod yn gyfartal o ran statws a chyfleoedd.
6. Bydd pob ysgol yn gweithredu'r Strategaeth Iaith Uwchradd ac yn llwyddo i sicrhau fod holl randdeiliaid yr ysgol ynghlwm â'r cynllun hwn.

Mae'r manylion allweddol wedi'u cymryd o'r ddogfen ddrafft 'Strategaeth Iaith Ysgolion Uwchradd Gwynedd'. Bydd y fersiwn terfynol ar gael ar ein gwefan neu gellir gofyn am gopi caled gan yr ysgol.

**YR ETHOS GYMREIG**

Mae Ysgol Uwchradd Tywyn yn unigryw yn nhermau lefel dwyieithrwydd, cefndir ieithyddol y disgyblion ac iaith y staff. Er fod rhesymau penodol am hyn, mae'r ysgol er hynny wedi brwydro i greu naws 'mwy Cymreig' yn yr ysgol.


Mae'r ysgol yn ceisio ennyn balchder yn yr iaith Gymraeg, yn y traddodiadau a'r dreftadaeth Gymreig.

Y gobaith yw y bydd disgyblion yn dangos balchder yn yr iaith Gymraeg yn y dosbarth a thu allan ac y byddant yn dod yn rhugl yng Nghymraeg a Saesneg (llafar ac ysgrifenedig) fel eu gilydd.

Er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni, mae'n hanfodol i greu agwedd bositif tuag at ddwyieithrwydd, fel bod pawb yn yr ysgol yn dangos cydraddoldeb tuag at y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Ysgol Uwchradd Tywyn am weld Cymraeg yn ffynnu ac am weld:

- mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau all-gyrsiol, ac yn y gymuned
- mwy o gyfleoedd i ddefnyddio y Gymraeg oddi fewn i'r ysgol
- mwy o hyder ar ran y staff/disgyblion a'u defnydd rhugl o'r iaith
- mwy o ymwybyddiaeth o werth y Cymraeg fel rhan o'n hunaniaeth a'n treftadaeth fel cenedl
- creu canllawiau i ddatblygu dulliau mwy cyson a phositif i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol.



Cynhyrchwyd gan/Produced by: Ysgol Uwchradd Tywyn

**CWRICWLWM YR YSGOL**

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei seilio ar 30 gwers o 50 munud bob wythnos. Rydym yn cynnig ystod eang oddi fewn y cwricwlwm sydd yn amrywiol, yn berthnasol ac yn cyflawni gofynion y Cwricwlwm i Gymru a Llwybrau Dysgu 14 - 19. Mae'r ysgol yn anelu at gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl yn unol â'u gallu ieithyddol. Rhoddir disgyblion mewn grwpiau tiwtor dwyieithog gallu cymysg (ar ddiwedd Blwyddyn 6) yn unol a'u cyraeddiadau yn y Gymraeg. Bydd niferoedd yn y dosbarthiadau yn amrywio yn unol â maint y rhai fydd yn cychwyn yn yr ysgol. Ar hyn o bryd y rhif ym mlwyddyn 7 eleni yw 65 ac mae gennym 3 grŵp tiwtor. Ar gyfer y pynciau, rhennir y disgyblion yn ôl:

- gallu (setio), ar gyfer rhai pynciau
- iaith (grŵp cofrestru) ar gyfer rhai pynciau

| **Blynyddoedd 7-9** | **7** | **8** | **9** |
|---|---|---|---|
| **Pwnc:** | | **Nifer Gwersi** | |
| Cymraeg | 4 | 4 | 4 |
| Saesneg | 4 | 4 | 4 |
| Mathemateg | 4 | 4 | 4 |
| Gwyddoniaeth | 3 | 3 | 4 |
| Ffrangeg | 1 | 2 | 1 |
| ‘BSL’ | 1 | 0 | 0 |
| Crefydd a Moeseg | 1 | 1 | 1 |
| Daearyddiaeth | 1 | 2 | 2 |
| Hanes | 2 | 2 | 2 |
| Celf | 1 | 1 | 1 |
| Cerdd | 1 | 1 | 1 |
| Technoleg | 2 | 2 | 2 |
| Cymhwysedd Digidol | 1 | 1 | 0 |
| Addysg Gorfforol | 3 | 2 | 3 |
| Lles | 1 | 1 | 0 |
| BACC | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm:** | **30** | **30** | **30** |

Ar ddiwedd blwyddyn 9, bydd disgyblion yn dewis cymysgedd o bynciau fydd yn arwain at TGAU, BTEC neu cymhwyster galwedigaethol ar ddiwedd Blwyddyn 11.

Mae'r Cwricwlwm Blynyddoedd 10 - 11 wedi'i rhannu'n ddwy ran, y Cwricwlwm Craidd a'r Opsiynau Pynciau.

**Amserlen**:

| **CA4 BLYNYDDOEDD 10-11** | | **CYFNODAU DYSGU** | |
|---|---|---|---|
| **PWNC:** | | **B10** | **B11** |
| CRAIDD | Cymraeg | 4 | 4 |
| | Saesneg | 4 | 4 |
| | Mathemateg | 4 | 4 |
| | Gwyddoniaeth | 6 | 6 |
| | Addysg Gorff | 2 | 2 |
| | BAG CYMRU | 1 | 1 |
| OPSIYNAU | DEWIS A | 3 | 3 |
| | DEWIS B | 3 | 3 |
| | DEWIS C | 3 | 3 |
| | **Cyfanswm** | **30** | **30** |

Nid oes raid i bob disgybl ddilyn pwnc TGAU a bydd y Pennaeth yn cynghori rhai disgyblion i ddilyn cwrs mwy perthnasol.



**Cwricwlwm i Gymru Blwyddyn 7 - 9**

Ein Gweledigaeth yn YUT

"Dysgu i Fyw"

Mae amcanion yr ysgol yn nodi ein dyheadau i roi'r cyfleoedd a'r addysg orau posibl i'n pobl ifanc wrth eu paratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol.

- Dysgwyr llwyddiannus gyda chymwysterau da a'r brwdfrydedd i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau, er mwyn cyflawni eu llawn botensial.

- Unigolion hunan-hyderus sy'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus a'u cyfleu yn seiliedig ar eu gwerthoedd a'u credoau.

- Dinasyddion cyfrifol sy'n parchu eraill ac yn cymryd rhan yn gyfrifol ym mywyd gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y cymunedau y maent yn byw ynddo.

- Cyfranwyr effeithiol gyda agwedd egnïol gadarnhaol sy'n gallu arwain neu weithio mewn tîm, gan fodloni heriau bywyd yr 21ain Ganrif.

Mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru wedi'i wneud i fyny o 6 Maes Dysgu a Phrofiad sef:



Y Celfyddydau Mynegiannol



Iechyd a Lles



Y Dyniaethau



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Mathemateg a Rhifedd



Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Mae manylion ein darpariaeth Cwricwlwm i Gymru ar gael ar wefan yr ysgol:**
**[www.tywyn.ysgoliongwynedd.cymru](www.tywyn.ysgoliongwynedd.cymru)**

**ARWEINIAD A CHYNGOR GYRFAOL**

Mae cyngor ac arweiniad gyrfaol ar gael i bob disgybl a rhiant drwy apwyntiad gyda Chydlynydd Gyrfau, fydd ar gael i helpu gyda gwybodaeth am bob agwedd a wnelo â gyrfaoedd - o ddewis opsiynau, hyd at lenwi ffurflenni cais i golegau, cynnig am swyddi, a gwybodaeth benodol ar ddewisiadau gyrfaol unigolion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n glos gyda Gyrfa Cymru, a bydd eu cynrychiolwyr wedi cael ei lleoli yn yr ysgol yn rheolaidd am 1 ddiwrnod yr wythnos i gyfweld â disgyblion ym Mlwyddyn 9, 10, ac 11 gan fonitro eu datblygiad o'r ysgol i addysg bellach neu i swydd.

**YMWELIADAU A GWEITHGAREDDAU ADDYSGOL**



Yn Ysgol Uwchradd Tywyn, rydym wedi cefnogi ac annog ein pobl ifanc i deithio o gwmpas y byd ac mae rhai yn amlwg wedi cael y profiad hwnnw. Rydym wedi cefnogi yr ethos yma drwy gynnig cyfleoedd gwerthfawr i deithio, yn arbennig felly yn Ewrop, Gogledd Affrica a'r Unol Daleithiau. Gorau oll os yw'r bobl ifanc yn dysgu y gwersi rydd teithio dramor iddynt mor fuan â phosibl, gan fod y sgiliau a'r profiadau maent yn eu derbyn yn cynnig manteision bery drwy eu hoes ac yn caniatáu mynediad i sgiliau nad ydych yn aml yn ymwybodol ohonynt.
Mae teithio dramor yn Ysgol Uwchradd hefyd wedi bod yn agoriad llygad i'n pobl ifanc, ac wedi eu galluogi i weld pwysigrwydd bod yn sensitif yn ddiwylliannol yn y byd sydd ohoni.

**CYLLIDEB**

**DATGANIAD GRANT AMDDIFADEDD**

Mae'r Grant Gwella Addysg (GGA) a'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i ysgolion. Mae'r GAD yn targedu'r agweddau canlynol yn benodol:
• Dulliau ysgol gyfan
• Ymgysylltu'r teulu a chymuned
• 'Catch up' a Tiwtora
• Cyfoethogi ac Uchelgeisiau
• Lles

**Fel ysgol, rydym wedi cytuno ar y tri cham canlynol**:

- i adnabod grŵp targed o ddisgyblion, ei nodweddion ac anghenion
- i gynllunio ymyrraeth sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau
- i fonitro a gwerthuso effaith yr adnoddau

**Grant Datblygu Disgyblion (GDD) 2024-2025: Cyfanswm - £ 48,300**

Mae gan ein hysgol cynllun cynhwysfawr sydd yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod Lleol Gwynedd i hyrwyddo cynnydd a dileu rhwystrau dysgu.

**Gweithgareddau sydd ar waith i dargedu codi safonau a chau'r bwlch tlodi:**

- Sicrhau bod ymyrraeth llythrennedd a rhifedd priodol, darpariaeth a gwahaniaethu yn eu lle.
- Sicrhau bod sesiynau tiwtora ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn digwydd lle bo angen er mwyn targedu cyflawniad uchel yn y pynciau craidd, a lle bo'n briodol mewn pynciau eraill.
- Clwb Gwaith Cartref.
- Cymorth ar gyfer ymweliadau addysgol lle y bo'n briodol, a chefnogaeth gyffredinol fel y bo'n briodol.
- Cymorth i gael gwersi offerynnol gan athrawon peripatetig.
- Deunyddiau Dysgu a chyfarpar gan gynnwys iPads, meddalwedd a llyfrau.
- Cefnogi disgyblion nad oes ganddynt fynediad i ddysgu ar-lein gartref - gliniaduron ar gael.
- Sesiynau mentora pan fo angen gyda Anogwyr Dysgu i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu a chyflawni targedau sy'n gweithio.
- Sesiynau llesiant wythnosol ar gyfer disgyblion sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl.

- Datblygu ymhellach a gweithio ar system tracio i fesur cynnydd ac effaith y rhaglenni ymyrraeth sydd ar waith.
- Mabwysiadu rhaglen ddwyieithog asesu er mwyn nodi arddulliau dysgu ein disgyblion yn ogystal â'u hanghenion dysgu.
- Defnyddio'r Cydlynydd Cynnydd Disgyblion i fonitro a thracio disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial.
- Darparu mentoriaid ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11 os oes angen.
- Darparu sesiynau gwaith cartref, rhifedd a llythrennedd (yn ogystal â grwpiau eraill yn ôl yr angen) yn ystod cyfnodau cofrestru prynhawn.
- Defnyddio’r Swyddog Lles a Chynhwysiad i gysylltu â rhieni y grwpiau targed er mwyn sicrhau presenoldeb mewn nosweithiau rhieni.
- Gwella presenoldeb y grwpiau targed drwy ddefnyddio swyddog presenoldeb yr ysgol.
- Rhaglen i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol ein disgyblion.

**GWYBODAETH YCHWANEGOL**

**ABSENOLDEB**

- Rhaid cael eglurhad am bob absenoldeb mewn nodyn oddi wrth y rhiant, drwy neges ffon i’r Swyddfa Ysgol, 01654 710256, ar neges desun drwy ap y School Gateway neu e-bost i atofficer@tywyn.ysgoliongwynedd.cymru
- Bydd angen nodyn meddygol ar gyfer absenoldebau estynedig.
- Mewn achosion o ddolur rhydd cynghorir cadw disgyblion adref am 48 awr ar ôl y symptomau dod i ben.
- Gyda phwyslais mawr ar lefelau presenoldeb ysgolion, mae’r Awdurdod Lleol wedi cyflwyno Polisi Presenoldeb newydd, sydd wedi ei fabwysiadu gan y corff llywodraethu. Dywed y polisi gall absenoldebau ond eu trin fel awdurdodedig o dan ‘amgylchiadau eithriadol’. O ganlyniad i hyn mae rhaid i’r ysgol drin unrhyw wyliau fel absenoldeb anawdurdodedig.
- Rhaid i ddisgyblion sy'n dod i'r ysgol yn hwyr hysbysu swyddfa'r ysgol **YN SYTH**; oni wneir hyn bydd y disgybl yn cael ei gofrestru'n absennol.
- Ni all unrhyw ddisgybl fynd oddi ar dir yr ysgol oni chafwyd nodyn swyddogol gan y Swyddfa yn rhoi caniatâd. GWNEWCH YN SICR EICH BOD YN PWYSLEISIO HYN WRTH EICH PLENTYN, AM RESYMAU IECHYD A DIOGELWCH.

**MEDDYGOL**

- Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw gyflwr meddygol neu glinigol a allai effeithio ar addysg y plentyn.
- Cwblhewch y ffurflen ganiatâd os ydych am i’r ysgol i gymryd cyfrifoldeb am roi moddion i’ch plentyn, os gwelwch yn dda.
- Rhaid i ddisgyblion sy'n dymuno cael eu hesgusodi o wersi Addysg Gorfforol am resymau meddygol gael nodyn gan eu rhiant neu dystysgrif feddygol. Dalier sylw - nid yw annwyd yn reswm digonol dros beidio cymryd rhan yn y gwersi Addysg Gorfforol. Mae’r gwersi yma, yn ein barn ni, yn oll bwysig i iechyd cyffredinol a ffitrwydd eich plentyn.

**TRAFNIDIAETH YSGOL**

Rhaid i ddisgyblion ymddwyn mewn ffordd gyfrifol wrth deithio i'r ysgol neu wrth fynd adref. Os byddant yn camymddwyn mewn modd difrifol ar y bws neu drên gellir gwahardd y disgyblion rhag defnyddio trafnidiaeth ysgol am gyfnod penodol. Dalier sylw. **Mae cyfrifoldeb yr ysgol yn dod i ben wrth fynedfa’r ysgol.**

**LLUNIAU DISGYBLION**

O dro i dro bydd lluniau yn cael eu tynnu o’r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda’r ysgol. Gall rhai

o'r lluniau yma gael eu rhoi yn y papurau newydd, eu cynnwys mewn cyhoeddiadau ar safleoedd gwe yr ysgol, Cyngor Gwynedd neu sefydliadau eraill y byddwn yn cydweithio â nhw. **Os nad ydych am i'ch plentyn gael ei g/chynnwys mewn lluniau i'r pwrpas yma, wnewch chi ysgrifennu at Bennaeth yr ysgol i ddweud hynny.**

**Y DIWRNOD YSGOL**

| Dydd Llun – Dydd Gwener | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cofrestru | | 8.30 | - | 8.50 |
| Gwers | 1 | 8.50 | - | 9.40 |
| | 2 | 9.40 | - | 10.30 |
| Amser egwyl | | 10.30 | - | 10.45 |
| | 3 | 10.45 | - | 11.35 |
| | 4 | 11.35 | - | 12.25 |
| Amser cinio | | 12.25 | - | 13.05 |
| | | | | |
| | 5 | 13.05 | - | 13.55 |
| | 6 | 13.55 | - | 14.45 |

Mae swyddfa'r ysgol ar agor o 8.15 y bore tan 4.30 yn y prynhawn.
**Rhowch wybod i'r ysgol yn syth os nad yw eich plentyn wedi cyrraedd adref o'r ysgol.**

**TREFNIADAU MYNEDIAD**

Bydd raid i ddisgybl fod yn 11 oed cyn 1 Medi y flwyddyn bydd yn cychwyn yn yr ysgol.

Mae rhieni'r disgyblion sydd yn bwriadu dod i'r ysgol yn cael copi o Lawlyfr yr ysgol.

Rhif mynediad yr ysgol yw 95

Nifer ceisiadau i Blwyddyn 7 2025/2026 65

Canran ganiatawyd 100%

**NOSON AGORED**



Cynhelir Noson Agored bob blwyddyn i rieni a disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ystod Tymor yr Hydref. Yma bydd cyfle i ofyn cwestiynau ac i dderbyn gwybodaeth gan y Pennaeth, Cyd-gysylltydd Cynnydd Disgyblion ac aelodau eraill o'r staff sydd yn delio â'r flwyddyn gyntaf yn Ysgol Uwchradd Tywyn. Yn ogystal, cynhelir arddangosfeydd gan y disgyblion presennol, gwelir esiamplau o'u gwaith ym mhob adran. Gall rhieni ymuno yn y gweithgareddau, a bydd y staff ar gael i ateb unrhyw gwestiynau am gyfleoedd a'r profiadau sydd ar gael i'r disgyblion (Clwb Gwaith Cartref, Llinell Gymorth, Wythnos Cyfleoedd, Gwobr Dug Caeredin, Eisteddfodau ac eraill), yn ogystal â gwybodaeth am gynnydd y disgyblion.

Mae plant ysgolion blwyddyn 6 y dalgylch yn cael sawl cyfle yn ystod y flwyddyn i ddod i'r ysgol i flasu rhaglen o brofiadau a gwersi fel Dylunio a Thechnoleg, Gwyddoniaeth, Celf a Chrefftau, Technoleg Bwyd ac Addysg Gorfforol.

**TREFNIADAU AMSER CINIO**



Polisi Ysgol Uwchradd Tywyn yw fod **disgyblion yn aros ar dir yr ysgol drwy'r diwrnod ysgol** - mae hyn yn golygu amser ginio - os nad ydynt yn cymryd rhan yng ngweithgareddau Chwaraeon. NID yw'r Ganolfan Hamdden yn rhan o safle'r ysgol.

**Cinio Ysgol**

Mae staff arlwyo yr ysgol yn darparu amrywiaeth eang iawn o brydau oer a phoeth am bris rhesymol amser cinio. Gall disgyblion ddewis eu prydau bwyd eu hunain a thalu am hynny. Bydd pryd o fwyd sylweddol yn cynnwys prif gwrs, a phwdin yn costio tua £3.00 ar hyn o bryd. Mae'r staff arlwyo yn sicrhau eu bod yn darparu amrywiaeth o fwydydd iach - sef prydau poeth ac hefyd oer. Mae rhieni'n talu am brydau ysgol trwy'r ap School Comms, y mae'n rhaid ychwanegu ato'n rheolaidd.

**Oriau Agor y Ffreutur**

Mae'r prif ffreutur ar agor fel a ganlyn, ar bob diwrnod ysgol:

| | |
|---|---|
| Egwyl y bore: | 10.30 -10.45yb, yn gwerthu brechdanau a baguettes, pasta a salad, byrbrydau poeth, ffrwythau a diodydd. |
| Amser cinio: | Yn gwerthu pryd bwyd y dydd, yn<br>ychwanegol at yr eitemau sydd ar gael adeg yr egwyl. |

**Pecyn Bwyd**

Mae'n well gan rai disgyblion ddod â phecyn bwyd ac mae lle ar gael iddynt fwyta eu bwyd.

**Ni ddylai rhieni, dan unrhyw amgylchiad ddod i'r ysgol i ddod a bwyd i'w plant**.

Rhaid danfon llythyr i'r Pennaeth ar ddechrau tymor newydd, os yw rhiant yn dymuno i'w plant gael bwyd gartref. Gofynnwn i rhieni sicrhau fod cynnwys unrhyw becyn bwyd yn iach. (Cyngor ar y wefan.)

**Cinio am Ddim**

Bydd y staff y ffreutur yn ymwybodol o'r rhai hynny sydd yn hawlio cinio am ddim - rhaid iddynt fynd heibio gyda olion bysedd digidol er mwyn nodi a ydynt wedi cael cinio a'i peidio bob dydd. Gall y disgyblion yma gael eu bwyd adeg yr egwyl neu amser cinio, a chanddynt yr un dewis o fwyd a disgyblion eraill.

**LLINELL GYMORTH**

Mae'r gwasanaethau 'Llinell Gymorth' yn parhau i ddatblygu. Cynigir gweithdai i ddatblygu sgiliau pob grŵp blwyddyn, yn ogystal â'r rhai sy'n targedu problemau penodol neu ddiddordebau disgyblion. Mae nifer fawr o'r disgyblion hŷn yr ysgol yn aros ar ôl am help gyda'u pynciau TGAU.

Mae yna **Glwb Gwaith Cartref** i ddisgyblion eu fynychu. Mae ar agor am awr pob nos Iau yr wythnos ac yn gweithio ar y cynllun "taro i mewn".

Mae'r ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol gan Ysgol Uwchradd Tywyn yn rhan bwysig o addysg pob disgybl. Ceir 4 prif faes:

**Sesiynau Hybu-Gradd** yn cael eu cynnal mewn Mathemateg (dydd Llun) Gwyddoniaeth (dydd Mercher) Saesneg, Celf a TG (Dydd Iau), a D&T dydd Mercher ac Iau, bob wythnos ar gyfer holl ddisgyblion yn eu blwyddyn olaf, er mwyn darparu adolygu, atgyfnerthu ac ymestyn, wrth baratoi ar gyfer eu harholiadau allanol.

**Gweithdai mewn gweithio cydweithredol ac adeiladu tîm**: mae disgyblion gydag anghenion tebyg yn cael eu hadnabod a'u gwahodd i gyfres o weithdai er mwyn ffocysu ar ddatblygu nodweddion rhyngweithio cymdeithasol fel goddefgarwch, amynedd ac ystyriaeth o eraill.

**Help gyda Gwaith Cwrs**: bydd staff yn cynnig hyfforddiant ychwanegol i ddisgyblion i'w cynorthwyo pan yn gwneud gwaith cwrs.

Cred Ysgol Uwchradd Tywyn fod y disgyblion hynny sydd wedi mynychu 'Llinell Gymorth' mewn pynciau penodol, wedi elwa, ac wedi dod a llwyddiant academaidd yn ei sgil.

**Ystafell Ddosbarth Google a Teams:** mae hwn yn blatfform ar y we y mae athrawon a disgyblion yn ei ddefnyddio fel ffordd o gyfathrebu, gosod, cwblhau, cyflwyno a marcio gwaith. Efallai y bydd athrawon hefyd yn cysylltu â rhieni trwy e-bost ac mae rhieni hefyd yn gallu cyrchu a monitro cynnydd eu plant gyda'r gwaith. Mae adnoddau adolygu ar gael.

**CYFRIFIADURON**

Mae'r ysgol ar agor o 3.00-4.30pm i ddisgyblion defnyddio'r cyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Mae angen i rieni gwblhau ffurflen ganiatâd ynglŷn â'r camddefnydd o feddalwedd cyfrifiaduron/mynediad i'r rhyngrwyd. Mae pob defnydd o gyfrifiaduron yn cael ei fonitro.

**TREFN GWYNO**

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 29 o Ddeddf Diwygio Addysg 2002, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y bydd Cyrff Llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw riant sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, ac oni bai bod yr amgylchiadau'n rhai eithriadol, bydd y Corff Llywodraethol yn disgwyl fod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol. Dylid cysylltu â swyddfa'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn gyda'r Pennaeth.

**MYNEDIAD I WYBODAETH**

Mae'r dogfennau canlynol ar gael yn yr ysgol:

- Datganiad o bolisi cwricwlwm yr Awdurdod Addysg.
- Datganiad o nodau cwricwlaidd y Corff Llywodraethu, gan gynnwys y Polisi Anghenion Addysgol Arbennig
- Offerynnau, Cylchlythyrau a Memoranda Statudol a anfonwyd i'r ysgol gan Lywodraeth Cymru
- Unrhyw adroddiadau AEM sy'n cyfeirio at yr ysgol.
- Cynlluniau gwaith a meysydd llafur a ddefnyddir gan yr ysgol i gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Copi o drefn gwyno'r Awdurdod Addysg mewn perthynas a'r Cwricwlwm.
- Adroddiad blynyddol diweddaraf y Corff Llywodraethu i rieni.
- Polisi Mynediad yn y Sector Uwchradd.

Gofynnir i unrhyw un sydd angen copi o'r dogfennau hyn gysylltu â'r ysgol ymlaen llaw. Codir tal o 50c y dudalen (cost llungopïo) am gopi o'r dogfennau a gofynnir am o leiaf 5 diwrnod i baratoi'r gwaith.

**COFNODION AR DDISGYBLION**

Mae gofyn i unrhyw riant sydd eisiau gweld cofnod cwricwlaidd ei blentyn gysylltu â'r Pennaeth, (drwy'r swyddfa) ymlaen llaw. Bydd yr ysgol yn darparu'r cofnodion o fewn 15 diwrnod.

**FFIOEDD ARHOLIADAU**

Bydd yr ysgol yn talu am bob ffi arholiad arferol ar ran bob ymgeisydd.

Yr ymgeiswyr fydd yn talu am ffioedd yr arholiadau fyddant yn eu hail sefyll os na fydd rheswm boddhaol dros absenoldeb neu pan fydd yr ymgeisydd yn dymuno diwygio’r marc.

Ni fydd costau newid haen, tynnu enw yn ôl, cyn belled â bod y camau perthnasol yn cael eu dilyn, neu oherwydd newidiadau a allai ddod i law yn sgil y broses weinyddol, cyn belled â bod y newidiadau yn dod o fewn yr amser penodedig ganiateir gan y Cyrff Arholi.

Rhaid tynnu sylw at y ffaith fod ffioedd mynediad i arholiadau yn ddrud ac am y rheswm yma, bydd rhieni yn cael gwybod os nad yw eu plant yn cyrraedd y safon ddisgwylir, oherwydd diffyg ymdrech. Yn yr achosion hynny lle nad oes cynnydd i'w weld ni fydd y disgyblion yn cael eu rhoi i eistedd yr arholiad neu bydd gofyn iddynt dalu ffi mynediad i'r arholiad.


***Ebost ar gyfer ceisiadau am wybodaeth:***

*SDDYsgolion@gwynedd.llyw.cymru*

*SchoolsDPO@gwynedd.llyw.cymru*

**YMWELIADAU ADDYSGOL**

Ym marn yr ysgol, mae ymweliadau addysgol yn rhan hanfodol o addysg plentyn, ac yn help iddo/i ddatblygu fel person, yn gorfforol a chymdeithasol. Mae rhai ymweliadau yn orfodol gan eu bod yn rhan o feysydd llafur gwahanol bynciau, neu gyrsiau arholiadau allanol. Anogir ymweliadau eraill fel cyfrwng i gryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned.



**Mae disgwyl i blant ymweld â mannau lleol yn ystod oriau'r ysgol, ac os nad yw rhieni am i'w plentyn gymryd rhan yn yr ymweliadau hyn, disgwylir iddynt gynnig rheswm digonol am eu penderfyniad.**

Rhoir gwybodaeth ysgrifenedig am ymweliadau a drefnir tu allan i oriau arferol ysgol.

**TALU AM YMWELIADAU A GWEITHGAREDDAU YSGOL**

**Gellir codi tal llawn am**:

- nwyddau crai ar gyfer pynciau megis Dylunio a Thechnoleg a Technoleg Bwyd pan fo'r rhieni wedi datgan bwriad o gadw'r gwaith gorffenedig
- **ffioedd am ail sefyll arholiad, i'r disgyblion hynny sydd yn awyddus i wella eu canlyniadau**
- **ffioedd am arholiad a fethodd disgybl ei sefyll heb reswm digonol**
- pob gweithgaredd tu allan i oriau ysgol os nad yw'n angenrheidiol ar gyfer arholiad cydnabyddedig
- golli neu ddifrodi llyfrau neu offer addysgol, ddifrod i ffenestri neu adeiladau trwy gamymddwyn neu gamddefnydd
- deithio i leoliad profiad gwaith
- wersi offerynnol

**Gweithgareddau sy'n digwydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn oriau ysgol:**
Mae'r Ddeddf yn gwahardd taliadau gorfodol am y gweithgareddau sydd yn angenrheidiol yn addysgol, ond gall rhieni gynnig cyfraniadau gwirfoddol. Os nad oes digon o gefnogaeth gwirfoddol neu allanol mae gan yr Ysgol hawl i ddileu'r gweithgaredd. Fodd bynnag, ni ellir rhwystro plentyn rhag cymryd rhan am fod ei rieni naill ai'n amharod neu'n anabl i dalu. Hefyd, nid oes unrhyw fodd y gall cyfraniad un plentyn helpu'n uniongyrchol i dalu costau un arall. Ni ellir codi am gyrsiau preswyl sydd ym marn y Cyfarwyddwr Addysg yn angenrheidiol ar gyfer dilyn cwrs arholiad allanol neu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

**Gweithgareddau sy'n digwydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol y tu allan o oriau'r ysgol:**
Perchir y rheol 50% yma - os yw'r gweithgaredd am fwy na 50% tu allan i oriau'r ysgol yna godi'r tâl.

**Annog cyfraniadau**:
Bydd hawl gan y Llywodraethwyr i ofyn am gyfraniadau gwirfoddol gan rieni ac eraill, gan gynnwys y gymuned fusnes leol, i sicrhau parhad y gweithgareddau na ellir mwyach godi tâl amdanynt.

**TREFNIADAU ADDYSG GORFFOROL**



Mae campfa a chaeau chwarae ar dir Ysgol Uwchradd Tywyn. Hefyd mae'r ysgol yn cael defnyddio y neuadd chwaraeon, canolfan ffitrwydd, cae chwarae bob tywydd, a'r cwrt tenis yng Nghanolfan Hamdden Bro Dysynni.

Mae yn yr ysgol nifer o dimau hynod lwyddiannus a disgwylir i'r rhai sydd yn cael eu hethol i gynrychioli yr ysgol yn y timau yma, i ddangos ymroddiad sylweddol.

Ceir rhestr o'r dillad Addysg Gorfforol yn adran 'Gwisg Ysgol' yn y llawlyfr ac hefyd yn nhrefnydd y disgybl. Mae gan yr ysgol bolisi 'gwael neu ffit, dowch a'ch cit'. Felly disgwylir i 'r disgyblion ddod a'i cit AG i bob gwers, hyd yn oed os nad ydynt yn ddigon da i gymryd rhan.

- Bydd aelod o'r staff yn edrych ar ôl y disgyblion bob amser. Mae hyn yn golygu y byddant yn mynd gyda'r grŵp i'r gwersi. Pan fydd y gwersi y tu allan, bydd newid i'w cit yn sicrhau fod eu gwisg ysgol yn dal yn lan ac yn sych ar gyfer gweddill y dydd.
- Disgwylir i bob disgybl chwarae rhan weithredol yn y gwersi. Rhaid i'r disgyblion hynny nad sy'n cymryd rhan helpu y staff - fel canolwyr, cynnig adborth (asesu cyfoedion). Bydd sicrhau fod pawb yn dod a'u cit i bob gwers yn caniatáu i ddisgyblion i chwarae rhan weithredol ac felly wella eu haddysg yn y pwnc yma.
- Ni ddisgwylir i ddisgyblion gydag anafiadau difrifol, a chyda llythyr meddygol, i newid i'r cit AG, os nad ydynt yn gallu gwneud hynny.
- Rhaid tynnu pob gemwaith cyn yr wers a chlymu gwallt yn ôl.

**LLAIS Y DISGYBLION**

Mae bob dosbarth yn enwebu dau aelod i'w cynrychioli ar y Cyngor. Yn y cyfarfodydd mae'r Uwch Dîm Rheoli yn trafod materion sydd o ddiddordeb i'r disgyblion ac yn trafod polisïau'r ysgol. Mae cynrychiolwyr y Cyngor Ysgol yn cael mewnbwn i gyfweliadau staff.

**Cyngor Ysgol:**
Disgyblion o bob llys yn cwrdd a dewis cynrychiolwyr ar gyfer y pwyllgorau canlynol:

- Fforwm Eco-ysgolion
- Fforwm Ysgol Iach
- Cyngor Ysgol
- Cyngor Chwaraeon
- Fforwm Gymraeg

**Fforwm Eco-Ysgolion**: Mewnbwn i:
- Arbed ynni
- Sbwriel
- Tir yr Ysgol
- Bioamrywiaeth
- Dŵr
- Trafnidiaeth
- Iechyd a lles
- Creu Byd Cynaliadwy

**Fforwm Gymraeg:** Mewnbwn i:
- Hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ysgol
- Tocyn Iaith a chynlluniau gwobrwyo perthnasol
- Arddangosfeydd i atgyfnerthu'r defnydd o'r iaith Gymraeg
- Gweithdai cyflwyniadau i hybu'r iaith Gymraeg
- Creu strategaeth yr Iaith Gymraeg ar gyfer yr ysgol

**Fforwm Byw'n Iach:** Mewnbwn i:
- Hylendid
- Diogelwch
- Yr Amgylchedd
- Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau
- Datblygiad personol a pherthnasoedd
- Iechyd a lles meddyliol ac emosiynol
- Bwyd a Ffitrwydd

**Cyngor Ysgol**: Mewnbwn i:

- 
- Cynllunio, adolygu a gweithredu polisïau'r ysgol e.e. ymddygiad, gwrth-fwlio a.y.b.
- Sut i gynnwys pawb ym mywyd yr ysgol
- Gwelliannau i'r cwricwlwm
- Hunan-asesu'r ysgol
- Ethos ysgol gyfan - côd ymddygiad ar gyfer perthynas disgyblion a staff
- Hybu'r Gymraeg
- Gwella'r ysgol yn cynnwys cydweithio gydag ysgolion eraill
- Gweithgareddau amser cinio ac ar ôl ysgol
- Apwyntiadau staff
- Codi arian ar gyfer elusennau
- Datblygu adnoddau a cyfleusterau'r ysgol e.e. TGCh, Chwaraeon, Cerddoriaeth, Drama
- Gwelliannau i amgylchedd yr ysgol e.e. adeiladau'r ysgol, cantîn, toiledau a.y.b.
- Lles disgyblion- cefnogaeth cymheiriaid, mentora a.y.b.
- Trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd
- Cysylltiadau gyda'r gymuned

Mae pob fforwm Cyngor Ysgol yn cyfarfod o leiaf unwaith bob hanner tymor a mwy os yn o bosib.

**YSGOL TYWYN PROSIECT 2000**

"Ysgol Tywyn Prosiect 2000" yw enw'r Mudiad Elusennol Trwyddedig oddi fewn i'r ysgol a'i amcan yw "hybu addysg disgyblion yr ysgol" a bydd angen codi arian i gefnogi'r amcan yma.

Mae'r ysgol hefyd yn codi arian at elusennau cydnabyddedig. Mae disgyblion yn cael dewis elusen i'w gefnogi ar ôl talu am beidio gwisgo gwisg ysgol yn achlysurol.





**UNED GYNHWYSIAD**

**Y BROSES YMYRRAETH**

Dim ond aelod o'r Tîm UDA sydd â'r hawl i gyfeirio disgybl i'r Uned Gynhwysiad. Pan gaiff disgybl ei gyfeirio i'r uned yma, caiff ei anghenion eu hasesu a thrafodir unrhyw faterion pwysig. Gall y materion yma gynnwys ymddygiad, anghenion corfforol ac emosiynol. Wedi adnabod anghenion y disgybl bydd y tîm yn yr uned gynhwysiad yn ceisio datrys unrhyw broblem drwy ddefnyddio nifer o ddulliau.

Bydd y disgyblion yn derbyn rhaglen dysgu unigol. Bydd hwn yn cynnwys manylion o unrhyw ymyriad wnaed yn amserlen y disgybl gan gynnwys unrhyw gytundebau ymddygiad wnaed.
Nod terfynol yr ymyriad yw i:

- adnabod materion llosg
- penderfynu ar y lefel o ymyriad sydd angen
- ffurfio Cynllun Dysgu Unigol
- cefnogi y disgybl dan sylw
- rheoli unrhyw faterion llosg adnabuwyd
- cysylltu gydag asiantaethau allanol a threfnu cefnogaeth allanol os oes angen

Prif bwrpas yr Uned Gynhwysiad yw i alluogi y disgyblion i gyrraedd y pwynt ble gallent eto gael eu rhoi yn y dosbarthiadau arferol yn yr ysgol. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd mesurau mewn lle i gefnogi ymhellach addysg y disgybl. Gall hyn olygu, ond heb derfynau, gyflwyniad i amserlen rhan amser, lleoliad profiad gwaith, sesiynau ychwanegol gyda thiwtor un i un, sesiynau cwnsela ac ymweliadau ag asiantaethau allanol. Mae'r uned gynhwysiad hefyd yn cynnig cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau na chawsant efallai y cyfle i gymryd rhan ynddynt cyn hyn. Gellid trefnu'r rhain bob hanner tymor, a'u pwrpas fyddai i gynnig ystod eang o weithgareddau. Mae staff yr Uned Gynhwysiad yn gweithio'n galed i sicrhau fod y disgyblion yn deall mai dyma'r lle i ddisgyblion sydd yn brwydro i aros yn yr amgylchedd ysgol arferol. Nid yw'r ganolfan yn lle ble y gall disgyblion 'ddianc ' o'r gwersi arferol, ond yn fwy na hyn, mae yn lle i weithio yn dawel dan arolygaeth, ond sydd â rheolau llym a disgwyliadau uchel.

**Canmol ble mae'n haeddu canmoliaeth**

Er fod disgyblion yn cael eu cyfeirio i'r uned oherwydd materion ymddygiad, mae staff yr uned yn cydnabod pwysigrwydd rhoi canmoliaeth pan fo disgybl yn cyrraedd y safon osodwyd mewn tasg arbennig. Mae hyn yn adeiladu hyder yn y disgybl fyddai dro arall yn ymddangos ei fod yn ei chael yn anodd o'i gymharu â gweddill y dosbarth academig. Gellir defnyddio gwobrwyon i annog disgyblion ond rhaid gweithredu hyn yn ofalus.

**Arholiadau a TGAU**

Mae'r staff yn yr Uned Gynhwysiad yn awyddus i gefnogi pob disgybl yn eu gyrfa yn yr ysgol a'r nod i'r disgyblion yw i ennill cymaint o gymwysterau TGAU ag sydd bosibl. Mae'n amlwg hefyd mai nid dyma yw'r nod realistig i rai disgyblion. Gan hynny, gyda thrafodaeth gyda rhieni, a chytundeb yr UDA, gwnaed darpariaeth arall. Fodd bynnag, y targed isaf ar gyfer llwyddiant yn TGAU yw 5 TGAU. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan nifer fawr o gyrsiau e.e. rhagarweiniad i gymwysterau galwedigaethol.

**Ail Integreiddio**

Prif nod yr Uned Gynhwysiad yw i gefnogi disgyblion drwy amserau anodd ac annog y disgyblion hyn i ail ymuno â chorff yr ysgol, y bywyd a'r disgyblion. Weithiau gall y broses yma fod yn fyr-dro arall yn cymryd amser. Bydd rhai disgyblion yn methu ail integreiddio â gweddill yr ysgol. Bydd y disgyblion yma yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan staff yr uned hyd nes gadael yr ysgol.

**CYMORTH DYSGU 2025/2026**

Mae'r polisi o integreiddiad llawn gyda chefnogaeth gan adrannau'r pynciau craidd yn parhau. Ni ddefnyddir yr opsiwn o dynnu'n ôl o ddosbarthiadau'r prif ffrwd ond yn unig mewn amgylchiadau eithriadol.

Rhoddir cyngor i aelodau staff ar y nodau a osodwyd i bob disgybl, ac arweiniad sut mae'n bosib eu cyflawni. Penderfynir ar y nodau yma yn ystod yr Adolygiad Blynyddol.

**POLISI ADRAN CYMORTH DYSGU**

**Egwyddorion ac Amcanion**

Fe rydd yr ysgol bwysigrwydd mawr i les pob un disgybl. Rydym yn cydnabod fod llawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar allu disgyblion i ddysgu'n effeithiol. Mae'r ysgol wedi ei hymrwymo i ddatgloi potensial er mwyn sicrhau fod pob un plentyn yn llwyddiannus ar eu termau eu hunain.

- Mae'r ysgol hon yn anelu at sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.
- Mae'r ysgol hon yn anelu at gydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol ac eraill perthynol i'r plentyn a'i anawsterau.
- Mae'r ysgol hon yn anelu at weithio'n agos gyda rhieni er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol i helpu'r disgybl.

**Amcanion**

- Sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anawsterau a all fod yn llesteirio ei addysg.
- Casglu gwybodaeth ynghyd gan athrawon, rhieni, y disgybl ac eraill i sicrhau y ceir y ddealltwriaeth orau am natur anawsterau'r plentyn.
- Sicrhau y caiff y ddarpariaeth angenrheidiol ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig.
- Ceisio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth.

**Rôl y Corff Llywodraethu**

- Mae'r Corff Llywodraethu'n derbyn ei gyfrifoldeb am ddisgyblion ag anghenion arbennig yn ôl Deddf Addysg Anghenion Addysgol Arbennig yn derbyn hynny.
- Gwneud ei gorau i ddarparu'n briodol am unrhyw blentyn ag ADY.

**Trefniadau Mynediad**

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ag ADY i mewn i'r ysgol trwy:

- gydweithio gyda'r asiantaethau cynnal wrth dderbyn disgybl o'r newydd
- fynychu cyfarfodydd swyddogol, fel adolygiadau datganiadau, ee, trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, symud o ysgol arbennig
- ymweliadau gan cydlynydd cynradd/uwchradd i gyfarfod disgyblion/rhieni/pennaeth
- drafod â rhieni
- Cydlynydd ar gael diwrnod agored blwyddyn 6 a 7 lle y gwahoddir y rhieni hefyd

**Arbenigedd AAA, Grwpiau Cynhaliaeth**

Mae'r ysgol yn unol â'r Cod Ymarfer, yn cysylltu â'r AALL ynglŷn ag argaeledd a'r defnydd o'r gwasanaethau cymorth i ddisgyblion â ADY a mae mewn cyswllt rheolaidd gyda Seicolegydd Addysgol yr Ardal. Rhoddir croeso hefyd i gynghorwyr, gan gynnwys rhai ynglŷn a chlyw a nam ar y golwg, ffisiotherapyddion ayyb., ac mae eu cymorth ar y pen arall i'r ffon yn angenrheidiol er lles uniongyrchol disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer cynnig sylw grwpiau bach/ un i un fel a ganlyn:

- Cymhorthydd yn y dosbarth
- Cynllun darllen boreol
- Tynnu allan o wersi
- Asiantaethau allanol
- Gwersi dyslecsia ar ôl ysgol

**Gwybodaeth ar adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag ADY**

Yn yr ysgol hon yr ydym yn canfod anghenion addysgol yn fuan trwy:

- gael tystiolaeth o arsylwadau ac asesiadau athrawon gan gofio fod pob athro yn athro ar blant ADY
- edrych ar berfformiad y disgyblion yn erbyn disgrifiadau lefelau y Cwricwlwm Cenedlaethol
- sicrhau fod dulliau sgrinio ac asesu safonedig yn wybyddus i bob athro. Defnyddir profion Glannau Menai, Suffolk, Profion Cymru Gyfan, NFER Mathemateg
- fod yn agored a pharod i ymateb pan fo rhieni yn mynegi pryder, pryder y disgybl ei hun neu bryderon gan weithwyr proffesiynol eraill

**Trefniadau ar gyfer darparu mynediad i ddisgyblion ag ADY i gwricwlwm eang a chytbwys, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol**

Bydd pob disgybl ag ADY yn dilyn y cwricwlwm gyda disgyblion eraill. Os cyfyd anawsterau, yna:

- rhoddir sylw unigol o fewn y dosbarth
- paratoir gwaith unigol gan yr athrawon dosbarth
- trefnir cydweithio â phlant eraill – gweithdai darllen, mathemateg ayyb
- ymgynghorir gydag asiantaethau cynhaliol
- cynhelir trafodaethau gyda rhieni

**Trefniadau ar gyfer partneriaeth â rhieni**

Mae'r ysgol yn cydnabod y dylanwad holl bwysig sydd gan rieni ar gynnydd addysgol eu plant. Er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol anogir cydweithrediad gyda rhieni trwy:

- talu sylw proffesiynol i bryderon rhieni gan eu trafod am amser rhesymol ac ar yr amser cyfleus cyntaf
- rhoi lle amlwg i gymorth y rhiant lle bo hynny'n briodol
- rhoi sylw proffesiynol i farn y rhieni wrth lunio cynlluniau addysg unigol
- rhannu gwybodaeth am ffynonellau cymorth
- sicrhau bod y polisi hwn yn ei gyfanrwydd ar gael i'r rhieni ei ddarllen
- cynnwys rhieni mewn adolygiadau rheolaidd ar eu plentyn
- darparu adran yn Llawlyfr yr Ysgol yn trafod ADY

**Cysylltiadau ag ysgolion prif-lif eraill ac ysgolion arbennig, gan gynnwys y trefniadau pan fydd disgyblion yn newid neu'n gadael ysgol**

Mae gan yr ysgol gysylltiad agos ag ysgolion y dalgylch ac yn cyd-drafod â hwynt pan fydd disgybl yn:

- symud o ysgol prif-lif i ysgol prif-lif arall - cysylltu am fanylion,
- symud o ysgol gynradd i uwchradd - trosglwyddo gwybodaeth, cyfarfodydd adolygu

**YSGOL UWCHRADD TYWYN**



# POLISI FFÔN SYMUDOL

Nid yw’r ysgol yn caniatáu i ddisgyblion defnyddio ffôn symudol yn ystod oriau ysgol (gan gynnwys amser egwyl ac amser cinio) am y rhesymau canlynol:

- y posibilrwydd fod y ffôn symudol yn mynd i amharu ar wersi
- y defnydd o ffôn symudol i fwlio
- y defnydd o ffôn symudol i dynnu lluniau neu ffilmio staff a disgyblion

1. Os yw disgyblion angen cysylltu â rhieni yn ystod y dydd gallent ddefnyddio ffôn yn swyddfa'r ysgol.

2. Gall unigolion gael eu heithrio o’r polisi yma am resymau arbennig (e.e. meddygol). Mewn achosion o’r fath trafodir y mater gyda rhieni a hysbysir y staff.

3. Ar deithiau ysgol ble mae’r daith yn dychwelyd yn ôl i Dywyn ar ôl 2.45 yna caniateir i ddisgyblion fynd a ffôn symudol gyda hwy ar y daith.

4. Os yw disgybl yn cael ei ddal yn defnyddio ffôn symudol yn ystod oriau ysgol, dilynir y drefn ganlynol:

- Bydd y ffôn yn cael ei gymryd oddi wrth y disgybl a'i gadw'n ddiogel tan ddiwedd y diwrnod ysgol. Rhoddir gwybod i rieni drwy Classcharts a gall disgyblion gasglu'r ddyfais o swyddfa'r ysgol ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Bydd hwn yn cael ei gofnodi ar y system fel pwynt ymddygiad minws.
- Os bydd disgybl yn defnyddio ffon ar 3 achlysur gwahanol, bydd rhaid iddynt roi eu ffon yn y dderbynfa pob diwrnod am wythnos. Bydd ataliad ar ôl ysgol hefyd yn digwydd.
- Os gwelir ffôn disgybl a gofynnir iddo/iddi gyflwyno'r ffôn i aelod o staff ond bod y disgybl yn gwrthod gwneud hyn, bydd rhieni'n cael eu galw. Gofynnir i'r rhiant cymryd y ffôn. Os yw'r plentyn yn dal i wrthod gofynnir i'r rhiant fynd â'r disgybl adref.
- Os oes amheuaeth resymol fod y ffôn wedi ei ddefnyddio mewn modd amhriodol yn yr ysgol (e.e. tynnu lluniau o fewn gwersi, ffilmio digwyddiadau yn yr ysgol ac ati) yna archwilir y ffôn ym mhresenoldeb y disgybl.

Efallai y bydd y gwefannau canlynol yn ddefnyddiol i rieni sy'n poeni am ddefnydd eu plentyn o ffonau symudol:

https://www.stopbullying.gov/resources/what-you-can-do

https://www.ceop.police.uk/Safety-Centre/

**POLISI AR GYFER ADDYSG DISGYBLION MEWN GOFAL**

Yn genedlaethol, gwelir fod Plant Mewn Gofal yn tangyflawni - a hynny yn sylweddol. Felly, maent yn fwy tebyg o gael eu gwahardd o'r gymharu â'u cyfoedion. Mae gan ysgolion eu rhan i'w chwarae yma, drwy sicrhau fod plant sydd mewn gofal yn cael pob cyfle i fod yn iach, bod yn ddiogel, mwynhau, cyflawni ffyniant economaidd, i gyd-fynd â 'Mae pob Plentyn yn Cyfri'.

Mae helpu Plant Mewn Gofal i lwyddo a darparu dyfodol gwell iddynt yn flaenoriaeth allweddol ac mae'r polisi yma yn cymryd i ystyriaeth:

- ddyletswydd yr ALl dan Adran 52 o'r Ddeddf Plant 2004 yw i hybu cyraeddiadau addysgol Plant Mewn Gofal
- ganllawiau addas yr Adran Addysg i Gyrff Llywodraethol (Cefnogi Dysgwyr sydd mewn Gofal: Canllawiau ymarferol i Lywodraethwyr ysgolion)

Mae agwedd Ysgol Uwchradd Tywyn tuag at gefnogi cyraeddiadau Plant Mewn Gofal wedi eu seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- blaenoriaethu addysg
- hybu presenoldeb
- targedu cefnogaeth
- cael disgwyliadau uchel
- hybu cynhwysiad drwy agweddau heriol ac amrywiol
- cyrraedd sefyllfa o sefydlogrwydd a dilyniant
- ymyrraeth gynnar a blaenoriaethu gweithredu effeithiol
- gwrando ar blant
- hybu iechyd a lles
- gostwng nifer y gwaharddiadau a hybu sefydlogrwydd
- gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr, gweithwyr cymdeithasol a chyrff proffesiynol eraill

Mae'r Polisi hwn yn cyd-fynd â nifer o bolisïau eraill yn yr ysgol ac felly mae yn bwysig fod Llywodraethwyr yn ystyried anghenion y Plant Mewn Gofal wrth gario allan unrhyw adolygiad ohonynt:

- Côd Ymddygiad yr Ysgol
- Polisi Ymddygiad
- Polisi Disgyblaeth
- Cytundeb rhwng Cartref ac ysgol
- Polisi Gwrth fwlio
- Polisi Cyfle Cyfartal
- Polisi Gwarchod Plant.
- Polisi Anghenion Addysgol Arbennig

Bydd yr ysgol yn ymladd dros anghenion y Plant Mewn Gofal, yn codi ymwybyddiaeth ac yn herio unrhyw stereoteipio negyddol amdanynt, er mwyn sicrhau eu bod yn cael pob cyfle i lwyddo ar y lefel uchaf bosibl.

## POLISI YSGOL - CARTREF
## Partneriaeth a Chytundeb rhwng Y Cartref ac Ysgol Uwchradd Tywyn

| | Fel rhiant, gwnaf fy ngorau i…. | Fel myfyriwr, gwnaf fy ngorau i…. | Fel ysgol, gwnawn ein gorau i…. |
|---|---|---|---|
| **Bod yn barod ar gyfer ysgol** | • Anfon fy mab/merch gyda gwisg ysgol briodol.<br>• Sicrhau fod fy mab/merch yn mynd i'r ysgol gyda'r offer pwrpasol.<br>• Sicrhau fod fy mab/merch yn bresennol, ac hysbysu yr ysgol os oes absenoldeb anochel. | • Wisgo y wisg ysgol bob amser.<br>• Dod â'r offer priodol i'r ysgol.<br>• Mynychu gwersi ar amser. | • Fynnu fod y wisg ysgol yn cael ei gwisgo.<br>• Ddweud wrth eich mab/merch beth ddylai ddod gydag ef/hi i'r gwersi.<br>• Hybu presenoldeb a phrydlondeb. |
| **Dosbarth a waith ychwanegol** | • Cymryd diddordeb yng ngwaith fy mab/merch.<br>• Annog fy mab/merch i wneud ei gorau bob amser.<br>• Sicrhau fod fy mab/merch yn cwblhau gwaith yn ôl y cofnod yn y Llyfr Cyswllt Disgyblion | • Gwrando ar athrawon a gweithio'n galed.<br>• Cofnodi unrhyw waith ychwanegol yn fy nyddiadur, gwneud y gwaith a'i roi i mewn ar amser.<br>• Caniatáu i eraill weithio heb darfu arnynt.<br>• Gweithio yn galed i gwrdd â thargedau. | • Cynnig ystod eang a chydbwysedd yn y cwricwlwm.<br>• Gosod gwaith addas, fydd yn cael ei farcio yn rheolaidd.<br>• Gosod gwaith ychwanegol (cartref) - fydd yn addas ar gyfer oed ac ystod gallu.<br>• Cytuno ar dargedau ar gyfer eich mab/merch. |
| **Ymddygiad** | • Annog fy mab/merch i anelu at y safon uchaf o ymddygiad.<br>• Annog fy mab/merch i barchu eraill, yr amgylchedd, dysgu ac ef/hi ei hun. | • Ymddwyn yn iawn y tu mewn a thu allan i'r ysgol, a dilyn y Côd Ymddygiad. | • Hyrwyddo parch a safon uchel o ymddygiad i greu amgylchedd hapus a ddiogel, fydd yn hyrwyddo dysgu. |
| **Cefnogaeth bugeiliol** | • Gadael i'r ysgol wybod os oes problemau yn debygol o effeithio ar addysgu fy mab/merch. | • Rhoi gwybod i'r tiwtor neu aelod staff arall os oes gennyf broblem. | • Gwrando ac ymateb yn gyflym i unrhyw broblemau.<br>• Trin myfyrwyr yn unol a'u anghenion personol a delio gydag achosion o fwlio, gwahaniaethu ac unrhyw ymddygiad amrhiodol |
| **Cysylltiadau â'r ysgol** | • Cefnogi digwyddiadau yn yr ysgol, a'r CRhAaCh.<br>• Mynychu cyfarfodydd rhieni a nosweithiau trosglwyddo gwybodaeth.<br>• Darllen llythyrau o'r ysgol, ac ymateb le bo'r angen.<br>• Cefnogi yr ysgol os oes sancsiynau - ee. Cadw ar ôl yr ysgol, neu gwaharddiad mewnol, yn angenrheidiol. | • Dod o hyd i gyfleoedd sydd ar gael i mi, a chymryd rhan ble mae'n bosibl (ee. Clybiau, cymdeithasau, timau, ymweliadau).<br>• Mynd â llythyrau ac unrhyw wybodaeth arall, adref i'm rheini.<br>• Deall oblygiadau ymddygiad gwael, a chwblhau unrhyw sancsiynau, yn ôl gofynion yr ysgol. | • Bydd y wefan yn eich hysbysu yn rheolaidd o ddigwyddiadau yn yr ysgol ac anfonir y cylchlythyr bob tymor.<br>• Cynnal yn rheolaidd nosweithiau rhieni a nosweithiau cyfleu gwybodaeth yn rheolaidd<br>• Rhoi adroddiad blynyddol ar gynnydd eich mab/merch, ei bresenoldeb/phresenoldeb, a'i brydlondeb/phrydlondeb.<br>• Rhoi gwybod i chi am unrhyw bryderon, gofidiau, a llwyddiannau, fel bo'r angen. |
| **Iechyd** | • Anfon fy mab/merch i'r ysgol yn ymwybodol o'r cysylltiadau rhwng byw bywyd iach a chymhelliant a llwyddiant yn yr ysgol. | • Cymryd rhan yn y gwersi Addysg Gorfforol ac unrhyw weithgareddau all-gyrsiol.<br>• Bwyta ac yfed yn gymedrol, ar adegau addas yn ystod y dydd. | • Cynnig cyfleoedd i'r myfyrwyr i gymryd rhan mewn ystod eang o chwaraeon.<br>• Cynnig yr hawl i fwyd iach, a dŵr. |

Llofnod Rhiant/Gofalwr: ___________________ Llofnod myfyriwr: ________________________ Llofnod ar ran yr ysgol: ____________________

**RHESTR ATHRAWON A STAFF   2025-2026**

| | |
|---|---|
| Mr David Thorp | Pennaeth |
| Mrs Marion Sterritt | Dirprwy Bennaeth |
| | Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| | Gwyddoniaeth |
| Ms Karen Brunt | Mathemateg |
| | Gwyddoniaeth |
| Dr Jane Byrne | Ffrangeg |
| | Crefydd a Moeseg |
| | Cydlynydd Cymhwysedd Digidol |
| Miss Gwyneth Davies | Goruchwyliwr Cyflenwi |
| | Addysg Gorfforol |
| | Cymraeg |
| Mrs Rhian Davies | Pennaeth y Dyniaethau |
| | Hanes |
| | Mentor Cyffredinol |
| Mr Tim Dunne | Saesneg |
| Mr Mark Freeman | Pennaeth Celfyddydau Mynegiannol |
| | TGCh |
| | Celf |
| Mr Edward Hughes | Mathemateg |
| | Seryddiaeth |
| Mrs Hannah Hughes | Saesneg |
| | Drama |
| Mr Lloyd Hughes | Addysg Gorfforol |
| | Bagloriaeth Cymru |
| | Gwyddoniaeth |
| Miss Megan Hughes | Pennaeth Mathemateg a Rhifedd |
| | Cydlynydd Rhifedd |
| | 'BSL' |
| Mrs Sian Jarman | Pennaeth y Gymraeg |
| | Cydlynydd Llythrennedd Cymraeg |
| Mrs Alana Lewis-Moore | Daearyddiaeth |
| | Hanes |
| | Sweet |
| | Agored Cymru |
| Mrs Elliw Lloyd | Daearyddiaeth |
| | Cymraeg |
| Mrs Rachel Mumford | Gwyddoniaeth |
| | Daearyddiaeth |
| Mr Simon Newby | Pennaeth Saesneg |
| | Cydlynydd Llythrennedd Saesneg |
| | Agored Cymru |
| Mr Islwyn Phillips | Cydlynydd Cynnydd Disgyblion Blynyddoedd 7-9 |
| | Cyswllt Cynradd/Uwchradd |
| | Dylunio a Technoleg |
| | Swyddog Iechyd a Diogelwch |

| | |
|---|---|
| Mrs Rhian Pughe | Cerdd |
| | Lles |
| Mr Ethan Rodgers | Mathemateg |
| | Gwyddoniaeth |
| Mr Guto Roberts | Addysg Gorfforol |
| | Hyfforddi |
| | Bagloriaeth Cymru |
| | Gwyddoniaeth |
| Miss Siony Rudd | Pennaeth Iechyd a Lles |
| | Addysg Gorfforol |
| | Cydlynydd Bagloriaeth Cymru |
| Mrs Amy Spencer | Pennaeth Gwyddoniaeth Blynyddoedd 7-9 |
| | Cydlynydd STEM |
| | Ffiseg |
| Miss Anne-Sophie Tronet | Cydlynydd Cynnydd Disgyblion CA4 |
| | Pennaeth Technoleg |
| | Ffrangeg |
| | Bwyd a Maeth |
| Miss Lorna Williams | Pennaeth Gwyddoniaeth Blynyddoedd 10-11 |
| | Cemeg |
| Mrs Nia Williams | Cymraeg |
| | Crefydd a Moeseg |
| | Cydlynydd Gyrfau |
| | Datblygiad yr Iaith Gymraeg |

**Support Staff**

| | |
|---|---|
| Mr Ian Evans | Gofalwr |
| Mrs Lynsey Williams | Swyddog Cyllid ac Arholiadau |
| Mr Paul Ingram | Rheolwr Rhwydweithiau |
| Mrs Ruth Owen | Cymhorthydd Clerigol |
| Mrs Ceri Hiatt | Cymhorthydd Clerigol |
| Mrs Sharon Evans | Swyddog Presenoldeb |
| Miss Melanie Pratt | Technegydd Gwyddoniaeth |
| Mrs Nona Evans | Tiwtor Cefnogi Dysgu |
| Miss Cassie Griffiths | Cymraeg Ail Iaith |
| | Tiwtor Lefel Uwch Cefnogi Dysgu |
| Ms Michelle Bain | Swyddog Lles a Chynhwysiad |
| Mrs Sandra Hope | Tiwtor Cefnogi Dysgu |
| Ms Gemma Greaves | Tiwtor Cefnogi Dysgu |
| Mrs Lisa Lewis | Tiwtor Cefnogi Dysgu |
| Miss Heulwen Lloyd | Tiwtor Cefnogi Dysgu |
| Mrs Tiffany Kendall | Tiwtor Cefnogi Dysgu |
| Mrs Rachel Jenkins | Prif Gogydd |
| Nurse Anwen Roberts | Nyrs Ysgol |
| Mared Llwyd Roberts | Cwnselydd Ysgol |
| Eleri Wyn Jones | Swyddog lles Addysg |
| Liz Wyn Jones | Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd |
| Miss Bethan Williams | Cydlynydd lles a Chynhwysiad |

# CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2024-2025

| Dangosyddion Perfformiad 2025 - Performance Indicators 2025 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | All | All | Male | Male | Female | Female |
| Interim Capped 9 | 389.6 | 77 | 380.06 | 36 | 397.98 | 41 |
| Level 1 Threshold | 100.0% | 77 | 100.0% | 36 | 100.0% | 41 |
| Level 2 Threshold | 79.22% | 61 | 80.56% | 29 | 78.05% | 32 |
| Level 2 Science | 74.03% | 57 | 72.22% | 26 | 75.61% | 31 |
| Level 2 English/Welsh | 66.23% | 51 | 52.78% | 19 | 78.05% | 32 |
| Level 2 Maths/Numeracy | 66.23% | 51 | 72.22% | 26 | 60.98% | 25 |
| Level 2 Inclusion | 57.14% | 44 | 52.78% | 19 | 60.98% | 25 |
| CSI | 57.14% | 44 | 52.78% | 19 | 60.98% | 25 |
| Average Points Science | 43.64 | 77 | 41.78 | 36 | 45.27 | 41 |
| Average Points Literacy | 40.31 | 77 | 37.5 | 36 | 42.78 | 41 |
| Average Points Numeracy | 41.64 | 77 | 42.5 | 36 | 40.88 | 41 |
| 5 A*-A | 24.68% | 19 | 13.89% | 5 | 34.15% | 14 |

**Mesurau Perfformiad – rhai esboniadau**

**9 Wedi'i Capio:**

Bydd 5 o'r 9 cymhwyster defnyddir i gyfrifo'r sgôr yn:

- TGAU Iaith Cymraeg neu Iaith Saesneg (gorau'r dysgwr)
- TGAU Mathemateg a Mathemateg - Rhifedd
- 2 cymhwyster Gwyddoniaeth gorau'r dysgwr

Y 4 cymhwyster arall bydd rhai gorau (gradd uchaf) arall y dysgwr. Gall rhain fod yn TGAU, cymwysterau galwedigaethol neu'r Tystysgrif Her Sgiliau (craidd Bagloriaeth Cymru).

**Pwyntiau Graddau:**

| | |
|---|---|
| TGAU Cwrs Llawn | A* (58 pwynt), A (52), B (46), C (40), D (34), E (28), F (22) a G (16) |
| Lefel 2 Galwedigaethol Sengl | D* (58), D (52), M (46) a P (40) |
| Lefel 1 Galwedigaethol Sengl | D (34), M (28) a P (25) |
| Tystysgrif Her Sgiliau | A* (58), A (52), B (46), C (40), P* (34), P (22) |

**Trothwy Lefel 1:**

5 x A*-G TGAU (neu cyfwerth) mewn unrhyw bwnc.

Mae uchafswm 40% ar gyfraniad di-TGAU i'r trothwy Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2 cynhwysol.

**Trothwy Lefel 2**:

5 x A*-C TGAU (neu cyfwerth) mewn unrhyw bwnc.

Trothwy Lefel 2 Cyn.:

5 x A*-C TGAU (neu cyfwerth) yn cynnwys Cymraeg (mamiaith) neu Saesneg ac unai Mathemateg neu Mathemateg – Rhifedd**.**


**DPC (Dangosydd Pwnc Craidd)**

A*-C mewn Cymraeg (mamiaith) neu Saesneg, Mathemateg neu Mathemateg – Rhifedd a Gwyddoniaeth.

**Dyma'r manylion cyfredol o'r disgyblion a adawodd yr ysgol yn Gorffennaf 2025**:

| CYRCHFANNAU YMADAWYR YSGOL 2025 | |
|---|---|
| Addysg Bellach - Coleg | 53 |
| Addysg Bellach – Chweched Dosbarth | 16 |
| Cyflogaeth – Llawn amser | 8 |
| Cyflogaeth – Rhan amser | 0 |
| Heb wybodaeth amdanynt | 0 |
| Cyfanswm | 77 |





## GWYLIAU YSGOL 2025-2026

**Gellir gweld manylion dyddiadau tymor / gwyliau ar wefan Cyngor Sir Gwynedd:**

**[Dyddiau tymor / gwyliau (llyw.cymru)]**

**YSGOL UWCHRADD TYWYN, TYWYN**

Rydym yn cymryd eich preifatrwydd o ddifri, felly fe'ch anogwn i ddarllen y polisi hwn yn ofalus gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig ynghylch:

- Pwy ydym ni
- Pa wybodaeth ydym yn casglu
- Sut a pham yr ydym yn casglu, yn storio ac yn rhannu gwybodaeth bersonol
- Eich hawliau yng nghyswllt eich gwybodaeth bersonol
- Sut i gysylltu â ni ac awdurdodau goruchwylio os oes gennych gŵyn

**Pwy ydym ni**

Mae **Ysgol Uwchradd Tywyn** ('ni') yn casglu, defnyddio ac yn gyfrifol am wybodaeth bersonol benodol amdanoch chi fel 'rheolydd data'. Wrth wneud hynny, cawn ein rheoleiddio gan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol sy'n weithredol ledled yr Undeb Ewropeaidd (yn cynnwys y Deyrnas Unedig) ac rydym yn gyfrifol fel 'rheolwr data' am y wybodaeth bersonol honno er dibenion y cyfreithiau hynny.

**Gwybodaeth bersonol am ddisgyblion yr ydym yn ei chasglu a'i defnyddio:**

- Gwybodaeth a chysylltiadau personol i adnabod disgyblion (enw, dyddiad geni, cyfeiriad, rhif unigryw disgyblion (UPN), rhif unigryw dysgwyr (ULN), rhif unigryw ymgeiswyr (UCI), cyfeiriad e-bost, manylion cyswllt mewn argyfwng)
- Nodweddion (ethnigrwydd, cenedligrwydd, iaith y cartref, cymhwysedd prydau ysgol am ddim)
- Gwybodaeth diogelu (gorchmynion llys, cyfranogiad personol ac adroddiadau y gwasanaethau cymdeithasol ac amddiffyn plant, gwybodaeth gefndir berthnasol am y teulu)
- Anghenion addysgol arbennig (anghenion a safle yn cynnwys gwybodaeth 'Mwy abl a thalentog')
- Presenoldeb (nifer y sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau a rhesymau dros absenoldeb)
- Meddygol a gweinyddiaeth (gwybodaeth am feddyg, alergeddau, meddyginiaeth a gofynion dietegol)
- Asesiad a chyrhaeddiad (canlyniadau profion statudol ac anstatudol, hanes addysgol, lefelau cyflawniad disgwyliedig, adroddiadau tymhorol a blynyddol)
- Gwybodaeth am ymddygiad (gwaharddiadau ac unrhyw ddarpariaethau sydd wedi'u rhoi yn eu lle)
- Amserlen a'r dosbarthiadau a fynychir (yn cynnwys gwersi offerynnau cerdd)
- Lluniau
- Caniatâd ar gyfer teithiau ysgol a lluniau a gyhoeddir (yn cynnwys enw'r sawl a roddodd y caniatâd a'r dyddiad)

**Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion am y dibenion a ganlyn:**

- I gefnogi addysg y disgybl
- I fonitro ac adrodd ar gynnydd cyrhaeddiad y disgybl
- I ddarparu gofal bugeiliol priodol
- I asesu ansawdd ein gwasanaethau
- I gadw plant yn ddiogel (alergeddau bwyd, manylion cyswllt mewn argyfwng, delweddau TCC)
- I fodloni gofynion statudol ar gyfer defnydd gyda chasgliadau data

Gallwn ddefnyddio eich gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio. Dyma lle rydym yn gwneud penderfyniad yn awtomatig amdanoch chi heb ymyrraeth dynol.

**Dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt i brosesu gwybodaeth am ddisgyblion yw:**

- Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol y mae'r rheolydd data yn destun iddynt
- Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn gwarchod buddion hanfodol testun y data neu unrhyw berson naturiol arall.
- Mae prosesu yn angenrheidiol at ddiben tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu yn sgil dyfodiad awdurdod swyddogol y rheolydd data

**Yn ogystal, yn gysylltiedig ag unrhyw ddata categori arbennig**

- Mae prosesu yn angenrheidiol er dibenion cwblhau'r goblygiadau a defnyddio hawliau penodol sydd gan y rheolydd neu destun y data sy'n darparu ar gyfer mesurau diogelu priodol ar gyfer hawliau sylfaenol a diddordebau testun y data
- Mae prosesu yn angenrheidiol i warchod diddordebau hanfodol testun y data neu berson naturiol arall pan nad oes gallu corfforol neu gyfreithiol gan destun y data i roi caniatâd
- Mae prosesu yn angenrheidiol er dibenion archifo er budd y cyhoedd, ymchwil gwyddonol, ymchwil hanesyddol neu ddibenion ystadegol. Bydd hyn yn gymesur i'r nod yr anelir ato, yn parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data a diogelu hawliau sylfaenol a diddordebau testun y data.

**Y rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth am ddisgyblion yw:**

- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgyblion) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011
- Adroddiad Addysg (Adroddiad Pennaeth Rhieni ac Oedolion) (Cymru) 2011
- Deddf Diogelu Data 1998
- Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2012
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgol (Cymru) 2018
- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Deddf Cydraddoldeb 2010

- Gorchymyn Rheoliadau (Diogelwch Tân) 2005/ Gorchymyn Diwygio Rheoleiddiol (Diogelwch Tân) 2005 (cwblheir ffurflenni PEEPS ac mae'r rhain yn cynnwys manylion unrhyw anableddau sydd gan blentyn / aelod o staff)

**Casglu Gwybodaeth am Ddisgyblion**

Rydym yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion drwy ffurflenni cofrestru wrth i ddisgyblion ddechrau yn yr ysgol ac rydym yn derbyn peth data drwy *Common Transfer File* (CTF) os yw plentyn yn trosglwyddo atom o ysgol arall

Er bod y rhan fwyaf o wybodaeth am ddisgybl yr ydych yn ei darparu i ni yn hanfodol, bydd peth gwybodaeth yn cael ei darparu ar sail wirfoddol

Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data, byddwn yn rhoi gwybod i chi p'un a fydd yn ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth benodol i ni am ddisgybl neu os oes gennych ddewis yn hyn.

Os darperir gwybodaeth i ni ar sail wirfoddol, byddwn yn gofyn i chi roi caniatâd penodol ac yn rhoi'r opsiwn i chi dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

**Storio Data am Ddisgyblion**

Rydym yn cadw data am ddisgyblion yn ddiogel am gyfnodau penodol o amser fel y dangosir yn ein rhestr cyfnodau cadw. Am ragor o wybodaeth am ein cyfnodau cadw, ewch i'r polisi diogelu data ar ein gwefan www.tywyn.gwynedd.sch.uk

**Gyda phwy yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion**

Rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn rheolaidd gyda:

- Ysgolion y mae'r disgybl yn mynd iddynt pan fyddant yn ein gadael ni
- Cyngor Gwynedd, Awdurdod Lleol - Cwnselydd Ysgol, Swyddog Lles, Gwasanaethau Cymdeithasol, Hamdden, Trafnidiaeth, Cyllid, Derwen, GwE
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - nyrs ysgol, deintydd, CAMHS
- Yr Heddlu a'r tîm troseddu ieuenctid
- Canolfannau Iaith (pan fo angen)
- Llywodraeth Cymru
- Corff Llywodraethol yr Ysgol (lle sydd yn angenrheidiol)
- Cynnal –drwy SIMS (system rheoli gwybodaeth ysgolion)

**Asiantaethau a gomisiynir gennym i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan**

- Llywodraeth Cymru (drwy HwB)
- Byrddau Arholi - CBAC, OCR, JCQ (Joint Council for Qualifications Pearson/A2C), LRS (Learning Records Service)
- Colegau Addysg Bellach lle mae disgyblion yn dilyn a/neu'n trosglwyddo i CA4 - Coleg Menai, Coleg Meirion Dwyfor, Coleg Llandrillo
- Prifysgol Bangor a sefydliadau Addysg Uwch eraill yng Nghymru a Phrydain a phrifysgolion sy'n rhan o raglen SEREN Llywodraeth Cymru
- GwE

- Cynnal
- *Capita* – SIMS
- Capita – SchoolComms
- G-Suite
- Evolve
- Tempest (lluniau ysgol)
- Twitter
- Facebook
- Gwynedd Ni – 'Tîm o amgylch y teulu', Tîm Trothwy Gofal

**Cwmnïau perthnasol sy'n hyrwyddo ac yn gweinyddu profiadau dysgu ein disgyblion**

- Llywodraeth Cymru - drwy HwB
- GwE
- Cymorth i Ferched (Womens Aid)
- CAFCASS - Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd.
- *Advocacy Support Cymru* - Gofalwyr Ifanc
- Gyrfa Cymru
- Moodle
- Urdd Gobaith Cymru
- Classs Charts
- My Maths
- Gorwel
- TRAC

**Gwasanaethau cefnogi ieuenctid**

### Disgyblion 13+ oed

Pan fydd ein disgyblion yn troi yn 13 oed, byddwn hefyd yn trosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion i'n hawdurdod lleol a / neu ddarparwr gwasanaethau cefnogi ieuenctid oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau mewn perthynas ag addysg neu hyfforddiant y sawl sy'n 13-19 mlwydd oed dan adran 507B Deddf Addysg 1996.

Mae hyn yn eu galluogi i ddarparu gwasanaethau fel a ganlyn:

- gwasanaethau cefnogi ieuenctid
- cynghorwyr gyrfaoedd

Gall rhiant neu warcheidwad wneud cais mai **dim ond** enw, cyfeiriad a dyddiad geni eu plentyn a gaiff eu trosglwyddo i'w hawdurdod lleol neu ddarparwr gwasanaethau cefnogi ieuenctid drwy roi gwybod i ni. Trosglwyddir yr hawl hon i'r plentyn / disgybl unwaith y mae ef/hi yn 16 oed.

### Disgyblion 16+ oed

Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth benodol am ddisgyblion 16+ oed gyda'n hawdurdod lleol a / neu ddarparwr gwasanaethau cefnogi ieuenctid oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau mewn perthynas ag addysg neu hyfforddiant y rhai sy'n 13-19 mlwydd oed dan adran 507B Deddf Addysg 1996.

Mae hyn yn eu galluogi i ddarparu gwasanaethau fel a ganlyn:

- darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16
- gwasanaethau cefnogi ieuenctid
- cynghorwyr gyrfaoedd

Am ragor o wybodaeth am wasanaethau i bobl ifanc, ewch ar wefan ein hawdurdod lleol.

**Pam yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn rheolaidd**

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am ein disgyblion gydag unrhyw un heb ganiatâd, oni bai bod y gyfraith a'n polisïau yn caniatáu i ni wneud hynny.

Rydym yn rhannu data am ddisgyblion gyda Llywodraeth Cymru ar sail statudol. Mae rhannu data yn y modd hwn yn tanategu cyllid yr ysgol ac yn monitro cyrhaeddiad addysgol.

Mae'n ofynnol i ni gasglu data dan Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2011 a Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011.

Mae'n ofynnol i ni rannu gwybodaeth am ein disgyblion gyda'n Hawdurdod Lleol, Cyngor Gwynedd, a Llywodraeth Cymru dan Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2011

**Cais i gael mynediad i'ch data personol**

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan rieni a disgyblion yr hawl i ofyn am fynediad i'r wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanynt. Er mwyn gwneud cais am eich gwybodaeth bersonol, neu ofyn am fynediad i gofnod addysgol eich plentyn, cysylltwch ag un o'r isod:

**Pennaeth**
**Ysgol Uwchradd Tywyn**
**Ffordd yr Orsaf**
**Tywyn**
**Gwynedd**
**LL36 9EU**

**Swyddog Diogelu Data Ysgolion**
**Cyngor Gwynedd**
**Stryd y Castell**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

**Mae gennych hefyd yr hawl i:**

- Wrthwynebu i ddata personol gael ei brosesu sy'n debygol o achosi, neu sy'n achosi, niwed neu ofid
- Atal unrhyw beth rhag cael ei brosesu er dibenion marchnata uniongyrchol
- Gwrthwynebu penderfyniadau a wneir drwy ddulliau awtomataidd
- Cywiro, Atal, dileu neu ddinistrio data personol anghywir mewn rhai amgylchiadau
- Hawlio iawndal am y niwed a achoswyd o ganlyniad i dorri rheoliadau Diogelu Data

Os oes gennych bryder ynglŷn â'r modd yr ydym yn casglu neu'n defnyddio eich data personol, gofynnwn i chi godi eich pryder gyda ni i ddechrau. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) drwy https://ico.org.uk/concerns

**Diweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn**

Mae'n bosib y bydd angen i ni ddiweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn gyfnodol, felly, argymhellwn eich bod yn ailymweld â'r wybodaeth hon o bryd i'w gilydd. Diweddarwyd y fersiwn hwn ddiwethaf **Ebrill 2019**

**Cyswllt**

Os hoffech drafod unrhyw beth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch ag un o'r isod:

**Pennaeth**
**Ysgol Uwchradd Tywyn**
**Ffordd yr Orsaf**
**Tywyn**
**Gwynedd**
**LL36 9EU**

**Swyddog Diogelu Data Ysgolion**
**Cyngor Gwynedd**
**Stryd y Castell**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

SDDYsgolion@gwynedd.llyw.cymru

*Mae Ysgol Uwchradd Tywyn, fel rheolwr data, yn casglu gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data 2018 (GDPR DU).*
*Bydd y wybodaeth a chesglir gan yr ysgol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rheolaeth yr ysgol yn unig.*
*Cewch ragor o fanylion am sut rydym yn trin eich gwybodaeth yn datganiad preifatrwydd yr Ysgol.*